

Tudalen 6

GALA NEWYDD



Tudalen 16

EISTEDDFOD LLANRUG



Tudalen 8

100



Tudalen 11

OSIAN HUGHES

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl ddarllenwyr*

# ECO'r Wyddfa

Rhif: 395
Rhagfyr 2011
Pris: 50c

## Penbleth anfon i Sion Corn



Sut y gall trigolion Tan y Gaer a'r cylch anfon eu dymuniadau i Sion Corn? Dyna'r cwestiwn pan ddiflannodd y blwch postio yn nhrymder nos rywdro ddechrau Rhagfyr. Darganfuwyd y polyn oedd yn dal y blwch wedi ei daflu i'r cae cyfagos. Mae'n debyg nad rhyw gynllun dieflig gan gorachod drwg na chynllwyn gan y Swyddfa Bost fu achos y diflaniad. Lladron haearn yn ol pob tebyg fu'n gyfrifol.

Mawr obeithiwn y bydd holl drigolion yr ardal wedi medru anfon eu dymuniadau mewn da bryd i Sion Corn, a gobeithio y daw y blwch postio yn ei ol hefyd!



Plant iau Ysgol Gynradd Llanrug yn eu cyngerdd

### Rhifynnau'r Hysbysebion

Yn draddodiadol, mae rhifynnau Rhagfyr a'r Nadolig yn gyfle i holl fusnesau'r fro ddiolch i'w cwsmeriaid a dymuno'n dda iddynt dros y gwyliau. Ein dymuniad ninnau hefyd, yn swyddogion a gweithwyr yr "Eco" yw diolch i bawb fu'n hysbysebu yn y papur gydol y flwyddyn. Gyda'ch cymorth chi mae dyfodol ariannol yr "Eco" yn ddiogel.

## ANRHEG NADOLIG I'R "ECO"

Ar ol disgwyl sawl blwyddyn, mae Sion Corn wedi ateb gofynion pwyllgor gwaith yr "Eco". O rifyn cyntaf y flwyddyn newydd ym mis Chwefror, bydd gan y papur olygydd am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn. Mae Dafydd Whiteside Thomas yn hen gyfarwydd a'r gwaith, oherwydd bu'n olygydd am ddeuddeng mlynedd yn y dyddiau cynnar. Dymuna'r pwyllgor ddiolch iddo am wirfoddoli i wneud y gwaith. O hyn ymlaen (gweler hefyd dudalen 2) dylid anfon pob newyddion i Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd. LL55 4BA neu ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com neu gysylltu ar y ffon ar 01286 673515.

# ECO'r *Wyddfa*

**RHIF 395**
**RHAGFYR 2011**
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau**
**ar e-bost i**
**Dafydd Whiteside Thomas**
**Bron y Nant, Llanrug**
**01286 673515**
ecorwyddfa@gmail.com

**CADEIRYDD**
**Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(01286) 677263
glasgoed@hotmail.com

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog,
14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog,
14 Afon Rhos, Llanrug (01286) 674839

**TREFNYDD BWNDELU**
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

**GOHEBWYR PENTREFI**
**DEINIOLEN:** Nia Gruffudd (872133)
**BETHEL:** Geraint Elis. Cilgeran (01248) 670726
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams. Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James. Hafan. Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen. Bodafon. Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands. Glanrafon (872275)
**DINORWIG:** Marian Jones. Minallt. 7 Bro Elidir. Dinorwig (870292)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts. Swn-y-Gwynt (870740)
**LLANRUG:** Eryl Roberts. 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Llinos Jones. 6 Nant Ffynnon (871820)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans. Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry. Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts. Pantafon. Waunfawr (650570)

**Y RHIFYN NESAF**
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
**NOS SUL, 11 RHAGFYR**
Os gwelwch yn dda
Dyddiad Gosod
**NOS IAU, 15 RHAGFYR**
Sefydliad Coffa Llanrug
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
**DYDD IAU, 22 RHAGFYR**


## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2011

| Rhifyn | Copi | Gosod | Plygu | Ble |
|---|---|---|---|---|
| Chwefror | 15 Ionawr | 19 Ionawr | 26 Ionawr | Waunfawr |
| Mawrth | 19 Chwefror | 23 Chwefror | 1 Mawrth | Llanrug |

## LLYTHYRAU

*Berwynfa*
*Penrhyn-coch*
*Aberystwyth*
*SY23 3EW*
*23 Tachwedd 2011*
*berwynfa@btinternet.com*
*01970 820939*

Annwyl Gyfaill

### Dathlu 80 Mlynedd

Mae Eglwys y Bedyddwyr Horeb, Penrhyn-coch, Aberystwyth yn dathlu 80 mlwyddiant ers agor y Festri a threfnwyd arddangosfa o luniau, dogfennau, hen raglenni, llestri, tariannau ayyb i nodi'r achlysur arbennig hwn.

Gwyddom fod yna nifer o bobl a fagwyd yn Horeb, Penrhyn-coch, bellach wedi symud i fyw i ardaloedd eraill yng Nghymru ac fe hoffem ofyn yn garedig drwy gyfrwng eich papur bro a oes gan eich darllenwyr unrhyw lun neu atgof arbennig am eu cyfnod yn Horeb. Byddem yn falch iawn o glywed ganddynt, os yn bosib cyn Ionawr 1af, 2012.

*Yn gywir*
*Judith Morris*
*Gweinidog Horeb, Penrhyn-coch*

### Llythyr at breswylwyr Deiniolen

Annwyl Breswylydd

Mae'r heddlu wedi derbyn sawl adroddiad am ddwyn o gerbydau modur yn ardal Deiniolen yn ddiweddar. Cofiwch felly wneud yn siŵr eich bod yn cloi eich cerbyd bob amser a pheidiwch â gadael pethau gwerthfawr y tu mewn iddo. Dros y Nadolig ceisiwch osgoi gadael anrhegion yn y golwg yn y car gan y gallai hyn ddenu lladron a difetha eich Nadolig chi.

Os oes gennych chi unrhyw bryderon neu wybodaeth gysylltiedig â'r troseddau hyn, cysylltwch â mi ar 07854332216, neu anfonwch e-bost at michael.couling@nthwales.pnn.police.uk neu ffoniwch yr heddlu ar eu llinell ddifrys, 101.

*Yn gywir*
*PCSO 2856 Michael Couling*
*Gorsaf Heddlu Llanberis*
*Maes Padarn*
*Llanberis.*
*LL55 4TE*

### Rhag Hysbysiad.

Ni ddaw rhifyn nesaf yr "Eco" o'r wasg hyd ddechrau Chwefror. Byddem yn ddiolchgar pe baech yn peidio ac anfon lluniau Nadoligaidd i ni erbyn y rhifyn hwnnw!

Annwyl Ddarllenwyr

Rydym yn cynnal gweithdai ar gyfer disgyblion cynradd yng Nghae'r Gors ers sbel bellach, gyda nifer o ysgolion o'ch ardal yn gefnogwyr cyson i ni. Rhan hanfodol o'r arlwy yw cynnig profiadau uniongyrchol i'r plant, rhoi cyfle iddynt weld a defnyddio gwrthrychau sy'n rhan o'n hanes.

Dau o'r gweithdai yw 'Tun bwyd a Sgidia Hoelion Mawr', ac 'Effeithiau yr Ail Ryfel Byd ar ardal wledig fel Moeltryfan'. Tybed oes gan rywrai ohonoch rai o'r canlynol y byddech yn fodlon eu cyflwyno i ni?

Tun bwyd a phiser, Cŷn a gordd manollt, siaced liain wen, trowsus ffustion, ac sgidia hoelion mawr, fel y gallai'r plant eu gweld a chario rhai i'r chwarel a'u defnyddio.

Gas masg – un babi, un Mickey Mouse i blant bach a'r un arferol, llyfr dogni (Ration Book), cerdyn adnabod (Identity Card), neu unrhyw beth arall perthnasol i'r cyfnod. Byddwn yn ddiolchgar iawn am unrhyw roddion i gyfoethogi profiadau'r plant.

*Yn gywir*
*Dewi Tomos*

## RHODDION

Mrs Nellie Williams, Bungalows, Rhydfadog. (dim nodyn o faint ydi'r rhodd)

£20: Myrddyn ac Annie Pritchard, 1 Ffordd Padarn, Llanberis, Ann Patterson, 1 Bryn Tirion, Penisarwaun

£10: Goronwy Lewis, Stryd Ceunant, Llanberis; Er cof am Mrs Pritchard, 14 Stryd Siarlot, Llanberis gan Aylwyn, Pat a'r teulu; Mrs Doris Roberts, Dwyros, Waunfawr. Dilys a Hugh Evans, Min y Don, Brynrefail

£5: Rol Williams, Ardwyn, Pant y Waen, Waunfawr; Eurwen Roberts, 47 Rhydfadog, Deiniolen.

£3 Carolyn Jones, 16 Bryn Tirion, Penisarwaun

### Carol y Pedwar Amser

Y gwanwyn ddaw'n ei dro
i'r fro o'r tri mis llwm,
ac awel Erin fel y gwin
dros ffin pob dôl a chwm.

Daw trwch i'r cnydau i gyd
a'r byd yn ffwrn â gwres
cynhaeaf derfyn haf – a'r haul,
araul pob man drwy'r tes.

Y fedwen arian dal
ddihafal fathdy coeth
yn llog i'r hydref – pawb a wêl
Fihangel – g'lwyddgi noeth!

Carolau'r seren wen
uwchben a'r engyl gwych –
yn gwahodd pawb i'r freiniol wledd
a hedd – o lety'r ych.

*Norman Closs*

# Hen Enwau

Fis wedi cyfarfod o Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yn Aberystwyth, bwriwyd i'r byd lyfr go arbennig gan Wasg y Bwthyn yng Nghaernarfon. Cynhaliwyd noson y lansio yng Nghanolfan Felinwnda ddiwedd Tachwedd, ac nid yn aml y ceir Athro Prifysgol a Phrifardd yn llywio'r fath ddigwyddiad.

Geraint Lloyd Owen a'r Athro Hywel Wyn Owen oedd yn cyflwyno'r awdur a'r llyfr i'r gynulleidfa, sef Glenda Carr a'i chyfrol "Hen Enwau o Arfon, Llyn ac Eifionydd." Ffrwyth blynyddoedd o ymchwil yw'r gyfrol, ond nid ymdriniaeth ysgolheigaidd a geir, ond eglurhad ar enwau degau o ffermydd a chaeau, gan grybwyll hefyd y traddodiadau a'r chwedlau cysylltiedig.

Gwnaeth yr awdur waith ymchwil ar gyfer doethuriaeth ar enwau pump o blwyfi Arfon, ac felly mae cyfran helaeth o'r enwau yn deillio o fro'r "Eco". Dyna'r Ala o'r Waunfawr, Bach Riffri o Landdeiniolen, Tyddyn Rhyddid o Lanrug, Cwellyn o Fetws Garmon, Glynrhonwy o Lanberis a llawer, llawer mwy.

Ar ddiwedd y rhagair i'r gyfrol, dywed yr awdur, "fod yna lawer o hen draddodiadau a hen atgofion dilys na ddylid eu hanwybyddu, yn arbennig wrth drafod enwau caeau. Dylid parchu a diogelu'r rhain cyn iddynt fynd i ebargofiant." Mae'r gyfrol hon yn sicr yn gwneud hynny. Dyma lyfr swmpus, hynod ddiddorol: llyfr i bori ynddo drosodd a throsodd, a'r borfa yn dal yr un mor flasus! A'r cyfan am bris rhyfeddol o rad; yn ddim ond £10.95. Anrheg Nadolig gwerth chweil, ac anrheg i'w fwynhau gydol y flwyddyn newydd.

# Côr Pensiynwyr

Dyma Gôr newydd sbon i'r ardal. Côr fydd yn cychwyn yn gynnar yn y flwyddyn newydd (y dyddiad cychwyn i'w gyhoeddi yn y rhifyn nesaf o'r Eco). Bydd y Côr yn cyfarfod bob prynhawn Llun am ddau o'r gloch yng Nghanolfan Mynydd Gwefru, Llanberis. Yr arweinydd fydd Robin Jones, gydag Annette Bryn Parri yn cyfeilio. Ar ôl yr ymarferion bydd cyfle i gymdeithasu dros baned yn y caffi cyn troi am adref. Cyfle felly i'r gymuned hŷn gael dod at ei gilydd am awr neu ddwy bob wythnos heb unrhyw bwysau, i ganu ac i fwynhau eu hunain. Fydd yna ddim cystadlu eisteddfodol ond gobeithir rhoi ambell berfformiad yn y fro o bryd i'w gilydd.

Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â Robin ar (01248) 670140 neu Annette ar (01286) 871330.

# Eisteddfod y Ffermwyr Ieuanc



Llongyfarchiadau i ddau aelod o Fand Llanrug a fu'n cystadlu'n ddiweddar yn Eisteddfod Rhanbarth Eryri o fudiad Ffermwyr Ieuanc Cymru. Gerallt Owen gipiodd y wobr gyntaf ar yr unawd offerynnol dan 26ain oed, a'i frawd, Dyfrig, yn drydydd yn yr un gystadleuaeth. Gerallt hefyd enillodd Gwpan Coffa G.R. Davies, Llithfaen, am yr eitem unigol orau yn yr adran gerdd. Aeth Gerallt ymlaen i gynrychioli Rhanbarth Eryri yn y 'Genedlaethol' yn Rhyl ddiwedd Tachwedd.

# Noson Carolau Band Llanrug


Wythnos cyn y Nadolig cynhaliodd Band Llanrug noson garolau yn dan arweiniad Paul Hughes neuadd yr ysgol gynradd. Yn ystod y noson hynod o lwyddiannus, cafwyd eitemau cerddorol gan y band iau, y band ieuenctid a'r prif fand. Cyflwynwyd gwobrau blynyddol i'r aelodau rheini sydd wedi cyfrannu'n arbennig tuag at lwyddiant y band dros y flwyddyn.



*Llywydd y Band, Y Parch Marcus Robinson yn cyflwyno gwobr Paul Hughes i Barry Thompson, sef 'Bandiwr y Flwyddyn'. Mae'n hynod gefnogol i'r band ac i'r ieuenctid, ac yn teithio rhai miloedd o filltiroedd bob blwyddyn o Buxton yn Swydd Derby!*



*Y Cynghorydd Charles W. Jones yn cyflwyno Tlws Coffa Terry Lloyd Jones i Rhun Williams am ei gyfraniad cyffredinol i'r band gydol y flwyddyn.*



*Llywydd y Band yn cyflwyno Gwobr John Tame i Rhodri Williams am ddod y person ifanc mwyaf addawol yn y band ieuenctid eleni.*




Cynhaliwyd noson o ddawnsio llwyddiannus iawn yn y Neuadd Goffa ym Methel. Y beirniad oedd Cadi Fôn o Gaernarfon. Trefnydd y noson oedd Mrs Sian Harris gyda Manon Elwyn a Bronwen Price yn hwyluso. Talwyd diolchiadau gan Lywydd y Pwyllgor, Mrs Deilwen Hughes gyda diolch arbennig iawn i'r gynulleidfa frwdfrydig oedd yno yn cefnogi.

### Canlyniadau

Unigol Blwyddyn 3 ac Iau: 1. Lowri Angharad, 2. Elin Pierce, 3. Alaw Fflur. Blwyddyn 4,5 a 6: 1. Elan Jones, 2. Elin Wyn, 3. Lowri Williams Blwyddyn 7–13: 1. Emily Roberts. Parau Blwyddyn 3 ac Iau: 1, Lowri ac Elen. Parau Blwyddyn 4,5, a 6: 1. Amara a Manon: Parau Blwyddyn 7–13: 1. Elen a Ffion, Tesni a Rhian, 2. Ffion a Penny: Grwpiau Blwyddyn 3 ac Iau: 1, Angylion Kelly, 2. Angylion Disglair, 3. Grŵp Cai ac Angylion Bach Kelly: Grwpiau Blwyddyn 4, 5, a 6: 1. Angylion Cara, 2. Grŵp Anya a Betsan: Grwpiau Blwyddyn 7–13: 1. Grŵp Kelly

### Enillwyr y tlysau

Tlws Teulu Treflys a thlws bychan i'w chadw am byth wedi ei rhoi gan Enid a Meurig Huws – Elan Jones

Tlws Teulu Cefn Ffrwd a thlws bychan i'w chadw am byth wedi ei rhoi gan Rhys a Sian Harris – Emily Roberts

### Canlyniadau cystadlaethau llwyfan

Cynhaliwyd yr Eisteddfod Ddydd Sadwrn, Tachwedd y 12fed 2011. Y beirniaid oedd Deiniol Davies, Caernarfon (Cerdd) a Lyndsey Vaughan, Deiniolen (Llefaru). Yr arweinyddion oedd Manon Gwynedd, Menna Williams, Ann Lloyd Jones a Maldwyn John. Y cyfeilyddion oedd Manon Gwynedd, Helen Morris, Gethin Griffiths, Manon Elwyn, Bronwen Price, Deilwen Hughes a Dylan Parry. Glesni ac Eiry oedd yn dosbarthu'r rhubanau gyda Heledd Prys, Elin Jones ac Owain Llestyn yn redwyr canlyniadau.

Bu aelodau'r Pwyllgor a chyfeillion yr Eisteddfod yn brysur iawn yn stiwardio a threfnu raffl gyda nifer o wobrwyau yn rhoddedig gan gyfeillion a busnesau lleol. Diolch yn fawr.

### CYFARFOD Y PRYNHAWN LLEFARU

Cylch Meithrin: 1. Pawb yn cyd lefaru Dau Gi Bach. Dosbarth Meithrin: 1. Rhys, 2. Ela, 3. Rhodri. Blwyddyn Derbyn: 1. Elis, 2. Cara a Gwen, 3. Geraint a Cody. Blwyddyn 1 a 2: 1. Haf, 2. Zara, 3. Beca ac Owain Roberts. Blwyddyn 3 a 4: 1. Heledd, 2. Celt, 3. Bedwyr a Ben. Parti Llefaru Blwyddyn 1, 2 a 3: 1. Parti Cochion, Grŵp Power Rangers.

### CERDD

Cylch Meithrin: 1. Pawb yn cyd-ganu Goleuadau'r Ffair. Dosbarth Meithrin: 1. Ifan, 2. Elin a Rhodri, 3. Ela ac Iwan. Blwyddyn Derbyn: 1. Gwen, 2. Cory, 3. Morgan Jones a Cody. Blwyddyn 1 a 2: 1.Cai, 2.Cadi, 3. Llion. Blwyddyn 3 a 4: 1. Heledd, 2. Sion Arfon, 3. Rhys. Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 1–6: 1. Gwenllian, 2. Heledd. Parti Canu Blwyddyn 1, 2 a 3: 1. Cerddorion Cochion, 2. Cerddorfa'r Rhos. Unawd Piano Blwyddyn 1, 2 a 3: 1. Lowri, 2. Elen. Unawd piano Blwyddyn 4, 5 a 6: 1. Owain, 2. Elan, 3. Gwenllian. Unawd Offeryn Cynradd: 1. Owain, 2. Ywain Emrys a Ioan, 3. Lowri. Parti Cerdd-dant Cynradd: 1. Sosejys Bethel. Grŵp Offerynol: 1. Ysgol Bethel. Côr Cynradd: 1. Ysgol Bethel.

### CYFARFOD YR HWYR LLEFARU

Blwyddyn 5 a 6: 1. Gwenllian, 2. Iolo. Blwyddyn 7, 8 a 9: 1. Gwion Wyn. Blwyddyn 10–13: 1.Lois Jones, 2. Ilid Jones. Parti Blwyddyn 4, 5 a 6: 1. Meercats, 2. Parti Coca-cola. Parti Llefaru Uwchradd: 1. Parti 'Di-enw'. Darllen ar y Pryd Blwyddyn 7-13: 1. Gethin, 2. Bronwen, 3. Gruffudd a William.

### CERDD

Unawd Blwyddyn 4, 5 a 6: 1. Ywain Emrys, 2. Gwenllian ac Emma, 3. Erwan. Parti Canu Blwyddyn 4, 5 a 6; 1. Parti Chewing Gym, 2. Parti Selsig. Unawd piano Blwyddyn 7, 8 a 9: 1. Gwion Wyn, 2. Rhydian, 3. Hari ac Elen. Unawd Blwyddyn 7, 8 a 9: 1.Gwion Wyn, 2.Sion Alun, 3. Gwion John. Deuawd Cynradd ac Uwchradd: 1. Ilid a Lois, 2. Gwenllian a Heledd, 3. Gethin a Gruffudd. Offeryn heblaw Piano Blwyddyn 7, 8 a 9: 1. Alaw, 2. Elen, 3. Hari. Unawd Alaw Werin Blwyddyn 7–13: 1.Bronwen. Unawd Blwyddyn 10–13: 1. Eiry, 2. Gruffudd, 3. Lowri. Unawd piano Blwyddyn 10–13: 1. Bronwen, 2. Manon, 3. Gethin. Unawd offeryn heblaw piano Blwyddyn 10–13: 1. Manon, 2. William. Cân Gyfoes: 1.Eiry, 2.Grŵp Banter. Parti Canu Uwchradd: 1.Angylion Deilwen, 2. Y Wariars.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
BYSUS RHIWLAS
Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan
(01248) 361044
D. P. OWENS RHIWLAS



Cefnogwch ein hysbysebwyr

# *Parhad* BETHEL Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726



## SEREMONI'R CADERIO

Prif Lenor Cynradd oedd Gethin Rhys Jones a'r Prif Lenor Uwchradd oedd Manon Elwyn. Y llenor cynradd yn derbyn Tlws y Gymdeithas Lenyddol a thlws i'w chadw am byth yn rhoddedig gan Maldwyn John a Manon Gwynedd. Y llenor Uwchradd yn derbyn Tlws Merched y Wawr er cof am Miss Maggie Owen, a thlws i'w chadw am byth yn rhoddedig gan Gareth a Manon Griffiths.

Yr oedd yr Orsedd o dan ofal medrus Mr Geraint Elis. Owain Llestyn oedd Ceidwad y Cledd, Gethin Griffiths a Caio Hywel yn chwythu'r Cyrn Gwlad, Lowri Ann yn canu Cân y Cadeirio a Manon Gwynedd yn cyfeilio. Cyrchwyd y llenorion i'r llwyfan gan Emma Jones a Ffion Wyn gyda Elan Haf Jones a Sara Dylan yn cyfarch y llenorion gyda phenillion wedi eu cyfansoddi gan y beirniad Llên, Mr John Hywyn.

Diolch i bawb am gefnogi'r Eisteddfod eleni. I Athrawon a staff yr ysgol am eu cefnogaeth parod bob amser. I wirfoddolwyr am ddod ymlaen i roi eu hamser prin i hyfforddi, ac i rieni am gyrchu eu plant yn ôl ac ymlaen i ymarferion. Diolch hefyd i swyddogion y Pwyllgor am sicrhau bod yr Eisteddfod wedi rhedeg yn esmwyth.

## BYD Y BANDIAU PRES.

Llongyfarchiadau mawr i Dewi Griffiths, (Llwyn Eithin gynt), a fu yn llwyddiannus iawn ar un penwythnos yn ddiweddar. Roedd Dewi yn arwain Band Melingriffith 2 mewn cystadleuaeth adran 4 Bandiau Pres De Cymru ac, yn dilyn llwyddiant y Band eleni dyfarnwyd Y Band yn enillydd Cynghrair y Bandiau De Orllewin Cymru, y 4ydd adran. Enwyd Dewi hefyd yn Arweinydd y Flwyddyn yng Nghymru am ei gyfraniad fel arweinydd a lwyddodd i ddatblygu Band cymharol newydd i ddod yn Bencampwyr Prydain. Ar ol arwain Meligriffith 2 i fuddugoliaeth teithiodd yn syth i'r Sage yn Gateshead yng nghwmni Band Tref Tredegar ac, ar y Sul, daeth y Band yn 3ydd allan o 11 Band mewn cystadleuaeth 'Band in Concert', a dyfarnwyd i Dewi wobr y Prif Gornetydd gorau y Bandiau ar y diwrnod.

## CLWB BRO BETHEL.

Gwledda oedd hanes yr aelodau y mis yma a hynny yn y Gors Bach, LLanddeiniolen. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Llywydd y Parchedig Marcus Wyn Robinson gan ei fod i ffwrdd gyda'i waith ac felly croesawyd pawb gan yr Is-Lywydd, Geraint Elis. Cydymdeimlwyd ag Eunice Roberts yn dilyn profedigaeth yn ddiweddar ac anfonwyd cofion i deulu y diweddar Gwilym Jones, hwythau hefyd wedi cael profedigaeth. Roedd yr holl drefniadau ymlaen llaw, ac ar y diwrnod ,yng ngofal Ann Ellis Williams ac Ivy Wright, a diolchwyd iddynt am fod mor drylwyr, ac hefyd i'r rhai a gyfrannodd tuag at y raffl. Bu i bawb fwynhau cymdeithasu dros Bryd o fwyd a bu nifer o'r aelodau yn ddigon ffodus i ennill gwobr raffl. Diolchwyd hefyd i Cled a Susan, Y Post, am ofalu bod pawb yn derbyn anrheg.

**DYMUNA** Myra Griffith Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w chyfeillion yn Bethel a Phenisarwaun, gan na fydd yn anfon negeseuon personol eleni.

## ENILLWYR Y TLYSAU

Cwpan Arian (llefaru Cynradd): Heledd Prys
Cwpan Konica (llefaru Uwchradd): Gwion Wyn
Tlws Coffa Siân Robinson (darllen ar y pryd): Gethin Griffiths
Tlws Parc y Wern (Parti llefaru Cynradd): Parti Cochion
Tlws Coffa Goronwy Jones (lleisiol Cynradd): Ywain Emrys
Tlws Coffa W.G. Ellis (piano Cynradd): Owain Llestyn
Tarian Ael y Bryn (offerynnol Cynradd): Owain Llestyn
Tlws Coffa Mrs Joan Foulkes (lleisol Uwchradd): Eiry Price
Tlws Coffa John M. Williams: (piano Uwchradd): Bronwen Price
Tlws Teulu Penparc (offerynnol Uwchradd): Manon Elwyn
Tlws Llwyn Eithin (Parti Canu Cynradd): Parti Chewing Gym.

Tlysau bach i'w cadw am byth yn rhoddedig gan Siencyn a Glenys Griffiths, Wil a Nora Parry, Brian ac Eirlys Sharpe, Elwyn a Gwyneth Jones, Rita a Menna Williams, Alun a Sheila Foulkes, Huw a Nan Jones, Gareth a Rhian Hughes, Margaret a Phillip Williams, Arwel a Iola Jones, Deilwen ac Elwyn Hughes.

**CYMDEITHAS LENYDDOL.** Daeth cynulleidfa niferus ynghyd i ddathlu'r Nadolig gyda rhaglen ar y thema 'Goleuni' wedi ei pharatoi gan Beti Owen. Cafwyd gair o groeso gan y Llywydd, Dr. J. Elwyn Hughes, ac yna bu i'r aelodau gyflwyno amrywiol ddarlleniadau, cafwyd unawd gan Dafydd Emrys a mwynhawyd cydganu carolau yn fawr iawn. Trefnwyd lluniaeth ysgafn ar y diwedd gan Eirlys Sharpe. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ionawr 17, gyda sgwrs gan Lynn Francis am ei gwaith fel Archifydd.

## AIL AGOR SIOP A SWYDDFA POST.



*Cled a Susan*

Mis diwethaf bu i ddau o'r pentref ddangos tipyn o hyder a ffydd, sef Cled a Susan, yn ail agor y Siop a'r Post ar ei newydd wedd. Ar ôl gwario miloedd er mwyn cynyddu'r gofod crewyd archfarchnad fach o ran pryd a gwedd. Trefnwyd ganddynt ddiwrnod agored i drigolion y pentref trwy ddarparu gwledd o ddanteithion, digon i bawb, a mawr oedd y croeso ganddynt fel arfer. Mae'r teulu cyfan yn gefn i'r datblygiad felly gobeithio y cânt gefnogaeth y pentrefwyr. Rydym fel pentref yn ffodus iawn, cau mae siopau bach mewn llawer ardal. Pob hwyl iddynt.


Cofiwch ddefnyddio

**SWYDDFA POST BETHEL**

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan,
**CLED A SUSAN A'R TEULU**

**ORIAU AGOR**
6 a.m.–7.30 p.m.
(Llun–Sadwrn)
6 a.m.–3 p.m. (Sul)
10 a.m.–12pm
(Diwrnod Nadolig)

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant Tynnu Pres (Cashback)

*Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn a Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb*

**DYMUNIADAU NADOLIG.** Dymuna Goronwy Lewis, Stryd Ceunant, Nadolig Llawen iawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl ffrindiau a theulu oll, gan na fydd yn anfon cardiau'r Nadolig hwn.

**LLONGYFARCHIADAU** i Mrs Rhiannon Williams, Hafod y Wennol, ar lwyddo yng nghystadleuaeth 'Carol Yr Ŵyl' ar raglen Wedi 3, unwaith eto eleni, yn un o'r deg olaf. Mae Rhiannon wedi cyfansoddi Carol, y geiriau a'r alaw, i'r plant yn ei hysgol yn Llanfairfechan. Bydd y plant, sydd rhwng 4 a 7 oed yn ymddangos ar y rhaglen yn ystod Mis Rhagfyr. Mae hyn y 3ydd tro iddynt ymddangos ar y teledu i gynrychioli'r ysgol. Pob lwc iddynt!

**CYFARCHION NADOLIG.** Dymuna Aylwyn a Pat, Namor, Stryd Siarlot, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w teulu a ffrindiau i gyd.

**DYMUNIADAU NADOLIG.** Dymuna Mrs Anne Wilson Evans, Manod, Ffordd Capel Coch, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, cymdogion a'i holl ffrindiau, gan na fydd yn anfon Cardiau Nadolig eleni.

**CYFARCHION NADOLIG.** Hoffai Myrddyn ac Annie Pritchard, 1 Ffordd Padarn Llanberis, ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, ffrindiau a chymdogion, gan na fyddant yn anfon cardiau Nadolig eleni.

FFAIR NADOLIG Diolch i bawb a fynychodd, ac a gyfrannodd, at y Ffair Nadolig a gynhaliwyd yn Festri Capel Coch ar y 25ain o Dachwedd. Cafwyd prynhawn ardderchog, yn llawn bwrlwm, a gwnaed elw o £700 at gronfa'r Capel.


**CYMDEITHAS UNDEBOL NADOLIG**

Cafwyd cyfarfod bendithiol yn y Festri ar y 6ed o Ragfyr dan arweiniad y Parch John Pritchard. Trwy'r carolau a'r darlleniadau, bu yn son am y Teitlau sydd i'r Arglwydd Iesu yn y Beibl. Cymerwyd rhan gan Gôr Lleisiau Lliwedd, Arweinydd Mr Gareth Jones a Miss Marcia Thomas yn cyfeilio. Gareth fu'n cyfeilio ar yr organ yn ystod y canu cynulleidfaol. Cafwyd lluniaeth ysgafn a sgwrs ar y diwedd. Rhoddwyd y . diolchiadau gan Mr J H Hughes. Bydd y cyfarfod nesaf o'r Gymdeithas ar nos Fawrth y 10fed o Ionawr am 7 o'r gloch yn Festri Capel Coch. Y gwr gwadd fydd Mr Meical Roberts, Penygroes. Cawn sgwrs am "Llun Mewn Ffrâm a Cymdeithas Tai Gwynedd". Croeso cynnes i aelodau hen a newydd, cawn baned a sgwrs ar y diwedd.

## Ysgol Dolbadarn



*Tim gala nofio a fu'n cystadlu yng Ngala yr Urdd yn ddiweddar*



*Mr John Pritchard a'r disgyblion yn llwytho'r bocsys Operation Christmas Child i'r car.*



*Rhai o ddisgyblion yr ysgol yn sgwrsio gyda Sion Corn yn ystod y Ffair Nadolig yn ddiweddar.*

**CEIR CYMRU**
**BETHEL (01248) 670451**

A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf?
Ystyriwch y ffeithiau hyn.
1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% i 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed
2. Mae cwmnïau mawr a chwmnïau lesio a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddiscownt wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym ar gyfartaledd yn trafeilio mil o filltiroedd bob wythnos yn chwilio am y bargeinion gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar elw sydd fel arfer o gwmpas 5% o'r pris

CYFLENWYR PORTHIANT
**IDRIS MORRIS**
BWYDYDD ANIFEILIAID ANWES
GWERTHWYR NWY A GLO
**Y Fachell**
**Llanddeiniolen**
**Ffôn:**
**01248 670439**



**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA**

# Dylan Griffith

*Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol*

**TROS-Y-WAEN PENISARWAUN**

*Gwaith Cerrig Beddi*
*Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol*
*24 Awr y Dydd*
*Capel Gorffwys Preifat*
*Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal*

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd  **CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA**
Cyrhaeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

**Nadolig Llawen a diolch am eich cefnogaeth**
oddi wrth
**Alwyn a Sarah**

# Blodau Racca

Penisarwaun Ffôn: **870605**



Rithoedd Celyn,
Coed Nadolig, 'Crem Pots' a
Rithoedd Drws.

Basgedi Planhigion,
Trefniadau blodau Silc.

**RHODD O'R GALON YW BLODAU**

# L.G. OWEN

PENISARWAUN

**GWAITH ADEILADU CYFFREDINOL**

**Gwaith Cerrig- walio a gwynebu**
**Gwaith Tir-dreinio**
**Decio a Ffensio - Patios**
**Llwybrau- Concretio - Dreifs**
**Bloc Paving a Tharmacio**
Gwaith o safon, gyda prisiau rhesymol (Yn gwbwl yswiriedig)

CYSYLLTWCH ▶ 07896739544
NEU ▶ 07787532369

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb oddi wrth

# H.E. HUGHES A'I FEIBION

**Bwthyn Gadlys**
**LLANBERIS**
**Ffôn: 870444**



★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

# Gwesty Dolbadarn

**LLANBERIS Ffôn: 870277**



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth Aneuryn a'r staff

★ Priodasau ★ Dathliadau
★ Achlysuron Arbennig
★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul

THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

**Ffôn: Llanberis 08444 119 003**

*wrth droed yr Wyddfa*

*Nadolig llawen gan holl staff*
*Amgueddfa Lechi Cymru!*

**Dewch i ymweld â ni y gaeaf yma!**




AMSEROEDD AGOR Y GAEAF 2011
*10am- 4pm Dydd Sul - Dydd Gwener*
*(ar gau ar ddydd Sadwrn)*
*DROS Y NADOLIG BYDDWN AR GAU:*
*23, 24,25,26,27,31 Rhagfyr a 1,2 Ionawr 2012*

CINIO NADOLIG
1,2 neu 3 cwrs ar gael
BOB DYDD IAU
trwy Rhagfyr!
Ffoniwch am fanylion
(01286 870630

Amgueddfa Lechi Cymru
Llanberis, Gwynedd LL55 4TY
☎ 01286 870630
www.amgueddfacymru.ac.uk

# PENISARWAUN Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

**BLWYDDYN NEWYDD AC YSGOL NEWYDD.** Yn sicr mae gennyf deimladau cymysglyd iawn ar ddiwedd 2011! Ond hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch o galon am y gefnogaeth rwyf wedi ei gael yn yr ysgol dros y saith mlynedd diwethaf. Yn amlwg, mae fy niolch yn ddyledus i'r disgyblion a chyn-ddisgyblion, rhieni, staff, llywodraethwyr, cyfeillion yr Ysgol a'r Gymuned am yr holl gefnogaeth a'r brwdfrydedd maent wedi ei ddangos tag at yr ysgol a minnau. Rwyf wirioneddol wedi mwynhau fy nghyfnod yma fel pennaeth a dymunaf y gorau i Mr Llŷr Rees fel pennaeth yr Ysgol ym mis Ionawr 2012. Yn sicr ni fydd Ysgol Penisarwaun yn angof! Mae rhywbeth arbennig iawn am y Gymuned a'r Ysgol, a byddaf yn edrych yn ôl ar fy amser yma gydag atgofion melys iawn.
Gareth Fôn Jones

**YMWELYDD YN YR YSGOL.** Roedd yn fraint cael gwahodd Yr Athro Carr, sef taid Owain a Twm Herd, i ddosbarth CA2 dydd Llun, Rhagfyr 12fed, i siarad am Llewelyn Ein Llyw Olaf ar ddiwrnod arbennig Llywelyn. Cafwyd sgwrs ddifyr iawn a digon o gwestiynau i'r Athro a enillodd 'Brain of Britain' deirgwaith.



**YMWELIAD WILLIAM SELWYN**

Daeth William Selwyn atom i ymweld â'r ysgol ar ddydd Gwener, Tachwedd 25ain. Roedd wedi derbyn llythyr gan Elin Thomas yn gofyn iddo ddod atom i'r ysgol. Gwnaeth luniau anifeiliaid, fel gwiwer, ci defaid a glas y dorlan. Tra roedd yn gwneud y lluniau, roedd yn egluro am yr anifeiliaid. Pan ddywedom wrtho fod ei waith yn debyg i waith William Turner, teimlai William Selwyn yn arbennig. Roeddem i gyd yn teimlo'n hapus fel y gog oherwydd ein bod wedi cael arlunydd mor enwog i'n gweld ni. Rhoddodd ddau lun i ni fel rhodd, sef Castell Caernarfon a ffermwyr. Cyflwynwyd William Selwyn gan Twm Herd a diolchwyd iddo gan Amie Lewis. Ysgrifennodd Catrin Donnelly i ddiolch iddo am roi o'i amser i ddod atom. Roeddem fel dosbarth yn gwerthfawrogi ei fod wedi rhoi o'i amser prysur i ddod atom. Byddwn rŵan yn edrych ymlaen at efelychu ei waith. Pwy fydd artist enwog Penisarwaun, tybed?



**CARTREF NYRSIO. LLONGYFARCHIADAU.** Ar ddydd Mercher, 26 Hydref, cafwyd dydd o orfoleddu yng Nghartref Gofal Penisarwaun er mwyn dathlu 100fed penblwydd Maggie Lizzie Parry. Cafwyd dydd i'w gofio yng nghwmni'r teulu o bedair cenhedlaeth, amryw o ffrindiau a gwahoddedigion arbennig: Dirprwy Faer Caernarfon, Tudur Owen a'r Cynghorydd Pat Larsen a'i gŵr. Cawsom wledd wrth gael ein diddanu gan grŵp teyrnged y 'Soggy Bottom Boys'. Magwyd Maggie Lizzie ym Mhenygroes, lle bu'n rhedeg siop bapur newydd tan iddi fod mewn oed. Bellach mae Maggie Lizzie, ynghyd â'r preswylwyr eraill, yn edrych ymlaen am ddathliadau'r Nadolig gan ddechrau gyda'n parti ar Rhagfyr 15fed.

# DINORWIG

**CYDYMDEIMLAD.** Dymunwn fel ardal gydymdeimlo yn fawr hefo Mr Hefin Goronwy Jones, 45 Glan Ffynnon, Llanrug, gynt o Maes Eilion, Dinorwig, yn ei brofedigaeth fawr o golli ei wraig Menna Wyn, yn 64 mlwydd oed ar ôl gwaeledd byr yn Ysbyty Gwynedd. Hefin, gobeithio y cei nerth oddi uchod yn ystod y dyddiau tywyll yma. Pob Bendith i'r blynyddoedd a ddel.

**CYFARCHION YR WYL.** Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o ddarllenwyr yr Eco, ac anfonwn ein cofion dros yr Ŵyl at y rhai sy'n gaeth i'w cartrefi ac yn arbennig i Mrs Alice Thomas, gynt o 1 Bro Deiniol, sydd yn cartrefu ar hyn o bryd yn Plas Pen Gwaith, Llanberis.

**GWELLHAD.** Dymunwn wellhad llwyr a buan i Bethan Jones, 1 Bro Elidir, ar ôl ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Brysia wella, Bethan.

I Mrs Priscilla Williams, Wylfa, fu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar wedi damwain yn y cartref. Erbyn hyn y mae gartref ac yn gwella yn dda. Brysiwch chwithau wella hefyd, Mrs Williams.

## PENISARWAUN Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

**DYMUNIADAU GORAU** i Mr Gareth Fon Jones, gyda diolch iddo am ei ymroddiad a'i frwdfrydedd i'r Ysgol yn ystod ei gyfnod yma fel Pennaeth. Bydd colled ar ei ôl.

**PWYLLGOR NEUADD GYMUNED.** Tynnwyd Clwb Cant Rhagfyr a'i enillwyr oedd Sioned Griffith, Waen ac Annie Huches, Ty'n yr Ardd.

Atgoffir pawb yr adnewyddir yr Aelodaeth ym mis Ionawr - £6 y flwyddyn, 50c y mis neu gellir talu trwy archeb banc – ffurflenni ar gael gan y Trysorydd. Mae croeso mawr i aelodau newydd. Y mae'r Clwb Cant yn hwb enfawr tuag at y gost o redeg y Neuadd Gymuned.

Nos Fercher cynhaliwyd Noson Wasael, noson i ddathlu Gŵyl y Geni gyda chyfraniadau gan blant yr Ysgol Gymuned a phlant Ysgol Brynrefail, aelodau ifanc y pentref o Fand Deiniolen, aelodau'r Pwyllgor a chyfle i ganu'r hen Garolau i gyfeiliant rhai o aelodau Band Arian Deiniolen. Bydd rhagor o fanylion am y noson arbennig yma yn y rhifyn nesaf.

Cynhelir Noson Dwynwen ar nos Fercher, 25 Ionawr yn y Neuadd Gymuned, gyda chyfle i greu Cardiau Serch, addurno Teisen Serch a chyfle eto i gael Disgo yng ngofal Ieuenctid y pentref. Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol am 6.30 nos Iau, 12 Ionawr.

**CINIO'R HENOED.** Fe fwynhaodd nifer o ffrindiau eu cinio amheuthun yng Ngwesty'r Buckley, Biwmares, ddydd Sadwrn, 10 Rhagfyr, a chael cyfle i siopa yn Pringles wedyn. Diolch o galon i'r rhai sy'n trefnu hyn yn flynyddol.

**CRONFA'R PENSIYNWYR.** Pêl Bonws Loteri. Enillydd mis Tachwedd oedd Mr Michael Jones, Perthi, gyda Rhif 15.

**GENEDIGAETH.** Croeso arbennig i Mali Efa, Crud yr Awel, 3 Bryn Eglwys, merch fach a anwyd i Rhian a Kelvin – anrheg Nadolig gwerthfawr iawn i'r ddau. Llongyfarchiadau i chwi fel teulu.

**DIOLCH.** Dymuna Marc Jones, 16 Bryn Tirion, ddiolch i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau a'r rhoddion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed. Pob bendith i ti, Marc, i'r dyfodol.

**PEN-BLWYDD ARBENNIG.** Dymuniadau gorau i Dafydd, Sycharth, ar achlysur pen-blwydd arbennig ar Noswyl y Nadolig, gan Ann, Eurgain, Bedwyr ac Osian a'r teulu a swsus mawr gan Gwydion Rhys a Leah Rhiannon.

**YSGOL SUL BOSRA.** Diolchir i Andrew Settatree am ddod atom i siarad am y Cynllun EFE a gobeithir ei weld yn fuan yn 2012.

Bnawn Sul, 11 Rhagfyr, bu rhai o aelodau'r Ysgol Sul mewn Gwasanaeth hyfryd Cristingl yn Eglwys Santes Helen am 4.00 o'r gloch. Eglurwyd ystyr yr oren a'r gannwyll i'r plant gan y Ficer, y Parch Lloyd Jones. Cafodd y plant hŷn gyfle i adrodd gweddiau ac roedd pawb wedi mwynhau'r Gwasanaeth. Diolchir i bawb am y casgliad tuag at yr elusen Achub y Plant.

Fore Sul, 18fed Rhagfyr, bu aelodau'r Ysgol Sul a'u rhieni ar drên bach Llyn Padarn i gyfarfod Siôn Corn yn ei Groto. Diolchir i Ffiona am wneud y trefniadau a diolch i Siôn Corn a'i helpwyr am eu croeso twymgalon. Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn ar 8 Ionawr.

**CYNGERDD O WERTHFAWROGIAD.** Bnawn a nos Fawrth, 6ed Rhagfyr, fe fwynhaodd rhieni a thrigolion y pentref ddau gyflwyniad arbennig o safonol. Roedd Neuadd orlawn yn brawf o werthfawrogiad pawb i deyrngarwch ac ymroddiad y Pennaeth, Gareth Jones, ers saith mlynedd. Bydd yn ffarwelio â'r Ysgol Gymuned a chychwyn fel Pennaeth Ysgol Dolbadarn, Llanberis, ym mis Ionawr.

Ar ran y Gymuned, dymunir diolch i'r plant, staff a'r Pennaeth am wledd i'r llygaid ac yn sicr i'r glust. O dan faton y Pennaeth bu datganiadau'r Côr Cymuned - yn cynnwys 15 o gyn-ddisgyblion - yn glo clodwiw i'r perfformiadau.

Diolchir i Gareth am ei gefnogaeth diflino i bob agwedd o weithgareddau'r pentref – yr Urdd, Adran Ysgol; Pwyllgor Urdd Eisteddfod Eryri; Eisteddfod Bentref a Phwyllgor Rheoli'r Neuadd Gymuned.

Dymuna aelodau ysgol Sul Bosra ddiolch iddo hefyd am ei gefnogaeth i'w gweithgareddau hwythau ar hyd y blynyddoedd. Dymunir bob hapusrwydd i ti, Gareth, yn dy swydd fel Pennaeth Ysgol Dolbadarn, Llanberis. Diolch o galon.

**EGLWYS SANTES HELEN.** Bnawn Sul, 11 Rhagfyr, cynhaliwyd Gwasanaeth Cristingl yn yr Eglwys am 4.00 yng ngofal y Ficer, Y Parch Lloyd Jones. Fe ymunodd aelodau Ysgol Sul Bosra a'u rhieni yn y Gwasanaeth hyfryd yma.

Dymunir Nadolig Dedwydd i bawb a phob dymuniad da yn 2012.

## CAEATHRO Clive James, Hafan, Bryn Gwna. Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

**Digwyddiadau dros yr Ŵyl**

Mae mudiadau yng Nghaeathro wedi trefnu'r canlynol i drigolion y fro a'u cyfeillion:

Dydd Sul, 18 Rhagfyr: 5:30 – Dathliadau'r Nadolig gyda plant yr Ysgol Sul a phobl Ifanc yng Nghapel Caeathro;

Dydd Llun, 19 Rhagfyr: 5:30 – Parti 'Dolig y plant iau yng Nghanolfan y Capel;

Dydd Mercher, 21 Rhagfyr; 7:00 – Canu Carolau o amgylch y goeden Nadolig gyda Seindorf Iau Llanrug, wedyn cawl cartref a chymdeithasu;

Dydd Sul, 25 Rhagfyr; 11:00 Gwasanaeth Byr a Fawl yng Nghapel Caeathro.

**Newyddion y Capel.** Cynhelir y cyfarfodydd canlynol dros yr Wyl:

Sul 25 Rhagfyr – 11:00 Oedfa Fer Bore Nadolig.

Sul 1 Ionawr – 2:00 Oedfa croesawu'r Flwyddyn Newydd o dan arweiniad y Gweinidog, Y Parch Marcus Wyn Robinson.

**Parti 'Dolig y Plant Iau.** Bydd y Parti 'Dolig ar gyfer plant o oedran ysgol gynradd ac iau yn y cylch am 5:30, nos Lun 19 Rhagfyr yng Nghanolfan y Capel. Disgwylir dyn tymhorol a phwysig i ymweld!

**Canu Carolau.** Ar nos Fercher, 21 Rhagfyr am 7:00 y h. bydd Seindorf Iau Llanrug yn arwain canu carolau o amgylch y goeden Nadolig. [Pe bai'r tywydd yn anffafriol bydd y noson yng Nghanolfan y Capel.] Wedyn bydd cyfle i gymdeithasu dros Gawl Cartref.

**Tynfa Fisol y Gymdeithas Cae Chwarae.** Enillwyr y Dynfa Fisol ar gyfer mis Tachwedd oedd:- 1af: £40, rhif 88, M. & B. Liptrot, Y Glyn; 2il: £25, rhif 10, D. Morris, Frondeg; 3ydd: £15, rhif 65, N. Evans, Y Groeslon; 4ydd: £5, rhif 80, M. & L. Jones, Tŷ Newydd.

Mae'r Cymdeithas Cae Chwarae yn dra diolchgar am gefnogaeth y hap-chwaraewyr sy'n cyfrannu'n fisol ac felly yn galluogi'r Pwyllgor i drefnu'r parti i'r plant, bonws bach i'r pensiynwyr, y goeden 'Dolig wedi'i goleuo a'r canu carolau gyda'r seindorf a chawl. Diolch yn fawr iawn.

**Cwis Teuluol.** Cynhaliwyd Cwis Teuluol llwyddiannus iawn yng Nghanolfan y Capel nos Iau, 24 Tachwedd. Roedd 50 cwestiwn wedi eu seilio ar luniau o adeiladau yng Nghaernarfon. Yr enillwyr oedd tîm "Llyn Hafan", capten Owain Twrog gyda 47.5 marc allan o 50. Llongyfarchiadau iddynt. Fel canlyniad i'r noson mae apêl leol Eisteddfod yr Urdd, Eryri 2004 wedi elwa o £95. Diolch i bawb a oedd mor weithgar ar y noson, ac i Rich a Carey am y cwestiynau.

Ffair 'Dolig. Elw'r Ffair 'Dolig eleni – a gynhaliwyd ar noson oer a gwlyb - oedd £178.20. Diolch i bawb am roi, gweithio a gwario – a mwynhau eu hunain.

**DIOLCH.** Dymuna Mrs Nellie Williams, Rhydfadog, ddiolch o galon i'w theulu, ei chymdogion a'i chyfeillion am y llu cardiau, galwadau ffôn ac am y caredigrwydd mawr a gafodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 95 oed. Diolch i bawb. Hefyd gan na fydd Mrs Williams yn anfon cardiau Nadolig eleni, mae yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Diolch. Dymuna Ellen Williams (Bronallt, Pentre Helen), a Sian Huws (Arfryn, 8 Tai'r Faenol) ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd, y rhoddion, y cardiau a'r holl gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt ar achlysur colli eu hannwyl chwaer, Menna.

**PROFEDIGAETH.** Anfonwn ein cydymdeimlad at Eurwen a Selwyn, plant y Ddiweddar Mrs Jennie Goldsworthy, Hafod Olau a fu farw yn ddiweddar.

**GŴYL DEINIOLEN A'R CYLCH.** Cynhaliwyd parti Nadolig yn Nhŷ Elidir ar gyfer plant y pentref gyda Grotto Siôn Corn a disgo, ac i ddilyn, rhoddwyd goleuadau ymlaen ar hyd y stryd fawr. Daeth tyrfa fawr i weld y goleuadau yn cael eu rhoi ymlaen a braf yw gweld y stryd yn edrych cystal.

**LLEISIAU LLANBAB.** Mae parti canu plant Lleisiau Llanbabs, sydd dan arweiniad Lyndsey gyda Eleri yn cyfeilio, wedi cael gwahoddiad i ganu yn yr Wyl Ban Geltaidd yn yr Iwerddon ym mis Ebrill 2012. Mae'r parti yn cymryd rhan mewn nifer o gyngherddau yn arwain i fyny at y Nadolig a gweithgareddau codi arian at y daith. Gwerthfawrogir cefnogaeth tuag at yr ymgais i godi arian er mwyn mynd draw i'r Iwerddon, cysyllter â Lyndsey neu Eleri os gellir cynnig unrhyw gefnogaeth tuag at y daith.

Dymunir Nadolig Llawen a dymuniadau gorau at y flwyddyn newydd i holl drigolion y pentref a'r ardal ac i holl ddarllenwyr yr eco.

**DYMUNA** Eurwen Roberts, 47 Rhydfadog ddiolch o galon i bawb, yn deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, ymweliadau, galwadau ffôn ac anrhegion a dderbyniodd yn ddiweddar pan yn dathlu ei phen-blwydd arbennig. Gwerthfawrogir popeth yn fawr drwy gyfrwng yr Eco gan na ellir anfon at bawb yn unigol.

**YSGOL GWAUN GYNFI.** Enillwyr y Clwb Cant.

Medi: 1. Tracey Thomas; 2. Susan Jones; 3. Buddug Hughes.

Hydref: 1. Gwyn Oliver Jones; 2. Cynthia Williams; 3. Berwyn Davies.

Tachwedd: 1. Norman Roberts; 2. Ceri Williams; 3. Caryl Davies.

Rhagfyr: 1. Ffion Eryl Jones; 2. Rhian Parry; 3. Ffion Haf Richardson.

**YSGOL FEITHRIN.** Plant Mewn Angen. Hoffwn ar ran yr Ysgol Feithrin ddiolch i'r plant a ddaeth i'r Ysgol mewn gwisg ffansi ac am yr £16.19 a gasglwyd ar gyfer yr elusen Plant Mewn Angen.

**CYMDEITHAS CYFEILLION EGLWYS EGLWYS CRIST LLANDINORWIG.** Cyfarfu aelodau Cymdeithas Cyfeillion Eglwys Crist Llandinorwig ar nos Lun, Tachwedd 7ed. Ar ol mynd trwy'r gwasanaeth dechreuol, dan arweiniad y llywydd, Mrs Rosina Worth, croesawodd i'n plith ein gwraig wadd am y noson, sef Mrs Heather Lynn Jones, Llanberis. Tynnodd Heather ein sylw at y ffaith fod bwyd yn beth mor bwysig yn y Beibl. Ym mhob llyfr, gydag eithriad, o Genesis i'r Datguddiad mae sôn am fwyd. Roedd wedi mynd i drafferth i baratoi cawl ar ein cyfer gan ddefnyddio rhai o'r llysiau a'r ffrwythau oedd yn cael eu henwi yn y Beibl, mor agos ac oedd modd beth bynnag. Dyma rai o'r cynhwysion: wnion, prwns, almon, lemwn, olew olewydd, cig oen a gwahanol berlysiau. Cafodd pawb ddysglaid i'w brofi gyda bara pitsa, oedd, mae'n siŵr yn dipyn gwahanol i fara yr adeg hynny, ac wir 'roedd y cwbl yn flasus dros ben.

Roedd hefyd wedi dod â gwahanol ffrwythau gyda hi i bawb eu blasu, fel ffigys, orennau, hadau pomgranad ac yn y blaen. Yn sicr pe byddem ni heddiw yn glynu wrth y bwydydd oedd yn cael eu bwyta yr adeg hynny, ni fyddai angen mynd ar ddiet arnom na dysgu sut i fwyta'n iach.

Cafwyd cyfarfod hynod o ddiddorol a hwyliog a diolchwyd i Heather gan Rhianwen Jones. Gwesteion y te oedd Rosina Worth ac Eira Hughes. Terfynwyd drwy gydadrodd Y Gras.

## DEINIOLEN EISTEDDFOD

Adran Celf a Chrefft

Noson Feirniadu 21 Hydref 2011

### ARLUNIO

Ysgol Feithrin (plant bore) Fi Fy hun: 1. Gethin Emyr Williams; 2. Ashleigh Jones; 3. Harry White.

Dosbarth Meithrin Gwaun Gynfi (plant prynhawn): 1. Erin; 2. Gwion; 3. Lizzie.

Blwyddyn Derbyn: 1. Oscar Jones; 2. Sioned Bingham; 3. Erin Lewis.

Dosbarth 1: 1. Lily Rooney; 2. Sinead Roberts; 3. Owen Owen.

Dosbarth 2: 1. Chloe; 2. Moli; 3. Samiwel.

Dosbarth 3 a 4: 1. Rooney; 2. Harry; 3. Max.

Dosbarth 5: 1. Cai Phillipson; 2. Angharad Jones; 3. Lee.

Dosbarth 6: 1. Chloe; 2. Joe; 3. Awel.

Blwyddyn 7-13: 1. Prys Hughes; 2.

Ysgol a Dosbarth Meithrin Addurno Plât Papur: 1. Caio Owen.

Blwyddyn Derbyn 1 a 2, Addurno Llwy Bren: 1. Gweno Parry; 2. Rhun Pleming; 3. Elin Dafydd.

Bl 3 a 4, Model o dŷ clai: 1. Elliw Owen; 2. Alis Mair Jones; 3. Gwion Griffiths.

Bl 5 a 6, Gwneud Mwgwd: 1. Cian Pleming; 2. Elin Worth a Beca Medi; 3. Glain Hughes.

### GWAITH COED, METEL A LLECHEN

Agored, Hunan Ddewisiad: 1. Gwion Griffiths; 2. Cian Pleming; 3. Deian Parry a Rhun Pleming.

### GWAU

Bl 3, 4, 5 a 6: 1. Beca; 2. Elin Worth ac Alis Mair J; 3. Ella M. Jones.

Agored: 1. Margaret Evans; 2. Nicola Parry, Hilda Parry a Nan Owen; 3. Diana Davies.

Hunandddewisiad, Crosio: 1. Margaret Evans; 2. Nan Owen.

### GWNIO

Bl Derbyn 1 a 2: 1. Elin Dafydd; 2. Gwenno Parry; 3. Erin Lewis

Bl 3 a 4: 1. Gwenno Williams; 2. Deian Parry; 3. Alis Mair J.

Bl 5 a 6: 1. Ella M. Jones; 2. Victoria Williams; 3. Angharad ac Elin Worth.

Pwyth Croes, Hunanddewisiad: 1. Mona Parry; 2. Carys Davies.

### COGINIO

Ysgol a Dosbarth Meithrin, Bl 1 a 2: 1. Gwenno Parry ac Erin Williams; 2. Caio Owen a Yazmin Owen; 3. Rhun Pleming ac Elin Dafydd.

Bl 3 a 4: 1. Alis M.J.; 2. Jac Prydderch; 3. Josh Owen.

Bl 5 a 6, Addurno Pizza: 1. Elin Worth; 2. Angharad; 3. Cian.

Ysgol Uwchradd, Crymbl Ffrwyth: 1. Osian W.; 2. Alex a Damien Parry; 3. Prys Hughes.

Agored, Jam: 1. Glenys Owen; 2. Eleri Bean; 3. Manon Evans.

Dynion yn Unig, Sgon: 1. Colin Worth; 2. Alan Williams

### FFOTOGRAFFIAETH

Ysgol Gwaun Gynfi, Eira: 1. Elin Dafydd; 2. Alin Worth; 3. Angharad Jones

Ysgol Uwchradd, Machlud Haul: 1. Osian Worth; 2. Damien Parry; 3. Alex Parry.

Agored, Unrhyw ddau dymor mewn lliw neu du a gwyn: 1. Nicola Parry; 2. Colin Worth; 3. Hilda Parry

### ENILLWYR CWPANNAU

**CWPAN CLWB SNWCER** Am yr ymgais orau yn yr Adran Gwaith Coed - Gwion Gruffudd, Cynnyrch: Tŷ Adar Coed.

CWPAN BRYN DU Rhodd Mrs Arfonia Davies, Bangor. I'w dal am flwyddyn am y cynnyrch gorau yn yr Adran Gwau a Gwnio - Mona Parry, Cynnyrch: Pwyth Croes

CWPAN Rhodd Teulu Cae Main am yr ymgais orau yn yr Adran Celf a Chrefft o 12-21 oed i'w chadw am byth - Elliw Owen Cynnyrch: Tŷ Clai

**CWPAN** Er cof am y diweddar Mr. W.J. Eames i'w chadw am flwyddyn ynghyd â rhodd teulu Hafle, 2 Rhes Faenol, i'w chadw am byth am yr ymgais orau yn yr Adran Arlunio (dewis allan o arlunio plant blwyddyn 5/6 Ysgol Gwaun Gynfi) - Chloe Arlunio Bl 6.

## Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen Hydref 29, 2011

**BEIRNIADAETHAU ADRAN LENYDDOL**

Cystadlaethau Llenyddol Ysgol Gwaun Gynfi

**DOSBARTH MEITHRIN** - patrymau ysgrifennu

1af: Dafydd Sion Evans; 2il: Gwion Davies; 3ydd: Iwan Meredydd Jones.

**DOSBARTH DERBYN** - ysgrifennu enw

1af: Sioned Bingham; 2il: Gwenno Parry; 3ydd: MollyMurray.

**BLWYDDYN 1** - cofnodi profiad personol ar ffurf newyddion

1af: Sion Thomas; 2il: Ceian Whitehouse: 3ydd: Kyle Wyn Jones.

**BLWYDDYN 2** – ysgrifennu dyddiadur

1af: Gwion Williams; 2il: Hannah Hughes; 3ydd: Natthawut.

**BLWYDDYN 3 a 4** - edrych ar lun o'r parc, adnabod perygl ac ysgrifennu llythyr i'r Cyngor yn ei gylch

1af: Zoe Smith; 2il: Gwenno Williams; 3ydd: Alis Jones.

**BLWYDDYN 5** - llythyr o'r carchar yng nghymeriad Margaret, a garcharwyd am ddwyn yn 1847

11 wedi cystadlu

1af: Beca Jones; 2il: Cloe Williams; 3ydd: Elin Worth.

**BLWYDDYN 6** - llythyr o'r carchar yng nghymeriad Margaret, a garcharwyd am ddwyn yn 1847

12 wedi cystadlu

1af: Katie Jones; 2il: Sam Roberts; 3ydd: Awel Fflur Ellis.

Enillwyd y tlws am yr ymgais orau yn yr adran lenyddol dan 12 oed gan Beca Jones, o Ysgol Gwaun Gynfi am ei llythyr dychmygol o'r carchar ym 1847


**RHYDDIAITH DAN 16 OED** Neb wedi cystadlu

**CYSTADLEUAETH** a noddwyd gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen ac a feirniadwyd gan Mr Richard Llwyd Jones, Bethel. - Traethawd dan y testun 'Fy Mhentref i mewn 20 Mlynedd' (1 ymgais)

1af. Prys Wyn Hughes, Deiniolen

**MEDAL LENYDDOL DAN 25 OED** 4 ymgais

1af:- Gareth Evans-Jones, Marian-Glas, Ynys Môn; 2il: Elan Grug Muse, Carmel; 3ydd: Gareth Evans-Jones, Marian-Glas, Ynys Môn; 3ydd: Gareth Evans-Jones, Marian-Glas, Ynys Môn.



*Llongyfarchiadau i Osian Hughes am ennill tlws er cof am Mrs Nancy Edwina Jones am y perfformiad gorau i flynyddoedd 2 a iau yn eisteddfod Deiniolen a'r cylch.*

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i'n holl
gwsmeriaid
oddi wrth bawb ym
menter
fachwen
(01286) 872014

DYMUNA DAFYDD, Y TEULU A STAFF
Y TARW (Bull Inn)
DEINIOLEN
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I'W CWSMERIAID A FFRINDIAU OLL

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA
oddi wrth
bawb yn
ARFON GARAGE
DEINIOLEN
(Ffôn: Llanberis 870287)
Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym mro
*Eco'r Wyddfa* oddi wrth bawb ym
musnes llefrith
EIRWYN WILLIAMS
LLWYNCOED
CWM-Y-GLO
Ffôn: (01286) 870563
Diolch am eich cefnogaeth
trwy'r flwyddyn

**CYFARCHION NADOLIG.** Dymuna Rol Williams, Ardwyn, Pant y Waen, wyliau llawen i'w deulu a'i ffrindiau gan na fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni.

**CYDYMDEIMLO.** Anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf â theulu Tan y Fron yn eu profedigaeth o golli eu brawd, Rob, oedd yn byw yn Llandeilo.

**CLWB 300.** Enillwyr y Clwb am fis Tachwedd oedd: £30: Miss Sian Ll. Jones, Pongamdda; £20: Ms S.M. Parkinson, Gwynfa; £10: Dr Huw Roberts, Liverpool House.

**LLWYDDO.** Llongyfarchiadau mawr i Angharad Owen, Stad Tŷ Hen, ar ennill gradd BN Nyrsio Plant o Brifysgol Bangor. Pob dymuniad da iti yn dy swydd.

**DATHLU PEN-BLWYDD.** Llongyfarchiadau i Owain Wiliams, Stad Ael y Bryn, a fu'n dathlu cyrraedd ei un ar hugain mlwydd oed. Pob dymuniad da iti i'r dyfodol.

**DYMUNWN YN DDA** i Gareth Fôn, Cae Glas, fydd yn cychwyn ar ei swydd newydd yn brifathro ysgol Dolbadarn, Llanberis, ddechrau tymor y gwanwyn.

**ADREF O'R YSBYTY.** Dymunwn adferiad iechyd buan i Duncan Brown, Gwelfor, wedi iddo dreulio cyfnod yn yr ysbyty.

Croeso adref o'r ysbyty hefyd i Mrs Mildred Beech, Bronallt, wedi iddi dderbyn triniaeth.

**DIOLCH.** Dymuna Mrs Doris Roberts, Dwyros, ddiolch i'w theulu a ffrindiau fu'n ymweld â hi yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch hefyd i Dr Hanna a staff yr Uned Arbennig, Dr Azzu a'r staff Ward Glyder ac Uned Calon Ysbyty Glan Clwyd. Cafodd ofal arbennig ganddynt i gyd. Diolch yn fawr.

**DIOLCH.** Dymuna Karen a Marc Clack, Bro Waun, ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd eu mab bach, Lewis, ar ei enedigaeth. Gorfu i Lewis dreulio cyfnod yn Ysbyty Alder Hey ond mae wedi gwella a chael dod adref at ei deulu erbyn hyn.

**GENEDIGAETH.** Llongyfarchiadau i Arnold a Chris Roberts, Stad Bryn Golau, ar ddod yn daid a nain i wyres fach, Sophia. Merch fach i Valerie a Christian, a chwaer i Alex a Georgia.

**HAPUSRWYDD A THRISTWCH.** Ganwyd efeilliaid bach, Dion a Cai, i Elen a Michael Jones, 6 Ael y Bryn, brodyr i Elain. Yn ychydig o ddyddiau oed bu farw Cai gan adael tristwch i'r teulu bach. Cydymdeimlwn yn ddwys â chi yn eich colled.

**CYDYMDEIMLWN** yn ddwys â Mr Arthur Ellis, Min y Nant, yn ei brofedigaeth o golli ei briod, Edith. Chwaer annwyl i Gwen, Agnes a Now.

Ychydig ddyddiau yn ddiweddarach bu farw Mrs Arianwen Thomas, chwaer arall i Gwen, Agnes a Now (teulu Ty'n Wern gynt). Cydymdeimlwn yn ddwys â chi yn eich profedigaeth o golli dwy chwaer. Bu Anti Arian yn gogyddes yr ysgol am lawer blwyddyn ac wedi bwydo cenedlaethau o blant y pentref.

**CLWB BOWLIO.** Ar yr ail o Ragfyr, cynhaliwyd Noson Wobrwyo'r Clwb yng Ngwesty Snowdonia Park. Roedd 18 o'r aelodau yn bresennol a chawsom buffet blasus iawn a phawb wedi'i fwynhau. Yr enillwyr oedd:

Cwpan i'r Merched (noddwyd gan Garej Pantwaun): 1. Catherine Jones; 2. Pearl Williams.

Tarian (er cof am T.A. Thomas): 1. Emyr Evans; 2. Fred Buckley.

Cwpan y Capten: 1. Emyr Evans; 2. Brian Hill

Cwpan i barau (noddwyd gan Garej Gwalia, Caeathro): 1. Catherine Jones a Cai Pritchard; 2. Fred Buckley a Mal Burns.

Diolchwyd i'r Llywydd, Brian Hill, a'r ysgrifennydd, Anne Williams, am wneud y trefniadau. Mae aelodau'r Clwb yn ddiolchgar i'r Cyngor Cymuned am y rhodd o £100 tuag at gostau'r Clwb.

**SEFYDLIAD Y MERCHED.** Aeth 15 o'r aelodau i'r Vaynol Arms, Pentir, ddydd Iau, 1 Rhagfyr, am eu cinio Nadolig. Fel arfer cafwyd cinio ardderchog. Pawb wedi'i fwynhau yn fawr. Bydd y cyfarfod nesaf ar bnawn Iau, 5 Ionawr am 1.30 o'r gloch yn Festri Eglwys y Waun, pryd y bydd Cwis dan ofal Pat Parry. Croeso cynnes i aelodau newydd.

A thymor y Nadolig yma eto anfonwn Gyfarchion y Nadolig a'n Dymuniadau Gorau ar gyfer y Flwyddyn newydd i chi i gyd.

APÊL. Ni, drigolion y Waun, fydd yn gyfrifol am blygu y rhifyn nesaf o'r Eco. Byddwn yn gwneud y gwaith ddydd Iau, 26 Ionawr yn Festri Eglwys y Waun. Byddem yn falch iawn o gael eich cymorth. Diolch.

**SEFYDLIAD Y MERCHED.** Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol yn Festri Eglwys y Waun ar 3 Tachwedd. Croesawodd y Llywydd, Catherine Jones, Annie Thomas yn ôl yn dilyn ei llawdriniaeth yn ddiweddar. Darllenwyd llythyr misol y Ffederasiwn gan nodi'r gweithgareddau sydd i'w cynnal yn ystod yr wythnosau nesaf. Yna cyflwynodd y Llywydd y cyfarfod i ddwylo Pat Parry, oedd yno fel Cynghorwr ar ran y Ffederasiwn. Cafwyd yr Adroddiad Blynyddol gan Anne Williams, yr Ysgrifennydd, yna'r fantolen Ariannol gan Rose Ann Hughes, ac yn dilyn Adroddiad y Llywydd.

Yn dilyn y bleidlais, ail-etholwyd Catherine Jones fel Llywydd. Diolchodd i'r aelodau am eu hymddiriedaeth ynddi ac am bob help yr oedd wedi ei gael ganddynt yn ystod y flwyddyn. Cyfeiriodd yn arbennig at Anne a Rose am y gwaith ardderchog yr oeddynt wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn. Cytunodd yr oll o'r Is-Swyddogion a'r aelodau eraill oedd gyda swydd arbennig i gario ymlaen am flwyddyn arall. Fel arfer, roedd y Llywydd yn falch iawn mai Pat oedd yn llywio'r cyfarfod eto eleni a chyfeiriodd ati fel person oedd bob amser yn barod i helpu yn y Sefydliad yn lleol ac yn Sirol.

Y cyfarfod nesaf fydd ein Cinio Nadolig yn y Vaynol Arms ar 1 Rhagfyr. Edrychwn ymlaen yn fawr am hwn.

Mae rhaglen ddiddorol wedi ei threfnu ar gyfer 2012. Beth am ymuno â ni? Rydym yn cyfarfod am 1.30 y prynhawn yn Festri Eglwys y Waun y dydd Iau cyntaf yn y mis. Croeso cynnes i bawb.

## *Parhad* DEINIOLEN *eto...*

**STORI FER** 7 ymgais
1af: Dafydd Guto Ifan, Llanrug; 2il: Dafydd Guto Ifan, Llanrug; 3ydd: Dafydd Guto Ifan, Llanrug.

**ENGLYN** – 'Cymydog' 9 ymgais gan 7 cystadleuydd
1af: D Emrys Williams, Llangernyw.

**PENNILL I'W ADRODD GAN BLANT DAN 5 OED** - 'Tegan' 10 ymgais
1af: Mrs Margaret Gruffudd, Cynfi, Deiniolen.

**LIMRIG** - Un rhyfedd yw Wili drws nesa' 32 ymgais
1af: Ann Wyn Owen, Rhoscolyn; 2il: Megan Richards, Aberaeron; 3ydd: Gwen Griffith, Deiniolen.

**LLINELL GOLL** 33 ymgais
1af: Gwen Griffith, Deiniolen; 2il: R.J.H. Griffiths, Bodffordd; 3ydd: Megan Richards, Aberaeron.

**AGORED:** Ysgrifennu hanes mudiad lleol ar gyfer papur bro 1 ymgais
1af: Dafydd Guto Ifan, Llanrug (£5 o'r wobr).

**CYFANSODDI GEIRIAU EMYN** i wasanaeth ieuenctid 5 ymgais
Y beirniad yn atal y wobr.

**BRAWDDEG** o'r gair 'Penygolwg' 32 ymgais
1af: Carys Briddon, Tre'r Ddôl, Ceredigion; 2il: Sandra Morris, Deiniolen; 3ydd: Megan Richards, Aberaeron.

**CYSTADLEUAETH Y GADAIR** 5 ymgais
1af: Dafydd Guto Ifan, Llanrug.
Cyflwynodd y bardd buddugol ei gadair, a chyfrolau o farddoniaeth plant, i Ysgol Gwaun Gynfi er cof am y diweddar Selwyn Griffith a Jean Parc Jones a roddodd wasanaeth ffyddlon i Eisteddfod Deiniolen am flynyddoedd.

*Cyfarchion Nadolig*
**Caeathro a Waunfawr**

*Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yn*
**GAREJ GWALIA**
**CAEATHRO**
**Ffôn: 673096**
**Gwasanaeth Torri Lawr 24 awr**
**M.O.T. * Trwsio Ceir**
LONDIS
Ar agor 7 a.m. – 10 p.m. bob dydd. Bwyd, diodydd, papurau newydd, fideos, bara, llefrith, ayb

**GERAINT OWEN CARPEDI**
**CARPEDI • VINYLS • TEILS**
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
***A RHAI MEWN STOCK***
**Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd**
**A Uned 5 Gwyrfai Mill Bontnewydd**
**(01286)650552 Mob. 07712779475**

**YSWIRIANT FUW**
Hoffech chi hybu:
FUW UNDEB AMAETHWYR CYMRU
***Bwyd lleol***
***Busnesau cefn gwlad***
***Economi wledig***
Trwy gefnogi Yswiriant FUW?
Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes
Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon
**Buddsoddi yn eich cymuned**
Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfryngu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA**
i holl gyfeillion yr Antur ym mro'r Eco
**Antur** Waunfawr
01286 650 721 www.anturwaunfawr.org

**Siop Waunfawr**
(Howard a Debbie)
***Pay Point, Papur Newydd, Cardiau Cymraeg, Cylchgronau, Bwydydd, Nwyddau Tŷ***
Ffôn: **(01286) 650834**
Diolch am gefnogi'r fenter newydd
ar agor **7:30 – 6:00**
**8:00 – 5:30** (Sadwrn)
**8:30 – 12:30** (Sul)
e-bost: siopwaunfawr@live.com

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn*
**SNOWDONIA FIRE PROTECTION**
**YR HEN EFAIL, WAUNFAWR**
**Ffôn: (01286) 650235**
**Hefyd: Uned 10 TIR LLWYD, BAE CINMEL (01745) 360445**
OFFER DIFFODD TÂN – masnachol ac i'r cartref
OFFER CANFOD MŴG ar gyfer y cartref
GOLEUADAU ARGYFWNG
LARWM TÂN, a llawer mwy i'w gweld yn ein swyddfa.
REGISTERED FIRM

Mae pawb yn
**SIOP SGLODION Y PENTREF**
***THE VILLAGE CHIPPY***
**WAUNFAWR, Ffôn: 650683**
yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn
**WELDPAR CYMRU WALES**
**CANOLFAN OFFER WELDIO**
**WAUNFAWR Ffôn: 650720**

# CWM Y GLO
Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

**MARWOLAETH.** Dechrau Tachwedd daeth y newydd trist fod Ifan Jeffrey Owen, Bryn Derw, Llanberis, wedi ein gadael yn frawychus o sydyn. Roedd Ifan yn ddyn pwysig iawn yng Nghwm y Glo ar ddiwrnod y Carnifal gan mai ef oedd 'Y Goli'. Uchafbwynt y diwrnod i'r hogiau oedd sgorio gôl a 'Goli' proffesiynol yn sefyll o flaen y rhwyd. Felly y byddwn yn cofio Ifan yn y Cwm. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i briod, Betty, Steven ac Isabel, a'i wyres, Elin, a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Ymhen ychydig flynyddoedd wedyn daeth 'Goli' pwysig arall i fyw i Cwm, sef Gwilym Williams, neu yn hytrach 'Cwil Goli', felly roedd dau 'Goli' pwysig ar ddiwrnod y Carnifal.

Ychydig wythnosau yn unig wedi i Ifan ein gadael daeth y newydd trist fod Cwil wedi ein gadael wedi gwaeledd byr ond wedi brwydro'n ddewr yn erbyn afiechyd blin. Cofiwn Cwil, nid yn unig fel plastrwr, dreifar bws, neu gôl-geidwad, ond hefyd am ei wên siriol a'i hiwmor, heb sôn am y tynnu coes ac roedd bob amser yn barod iawn ei gymwynas.

Bu ei angladd fore Sadwrn, 26 Tachwedd, yng Nghapel Tabernacl a rhoddwyd ef i orffwys ym Mynwent Llanrug. Gwasanaethpwyd gan y Parch John Pritchard a'r Parch Eric Roberts, gyda Mrs Mair Huws wrth yr organ. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod, Margaret, y plant Carys, Terry, Keith, Anwen a Rhian, a'i ddwy wyres fach, Efa Lois a Mali Fflur. Hefyd ei chwaer a'i frodyr, yr oedd ganddo cymaint o feddwl ohonynt.

**DYMUNA** Margaret, Carys, Terry ac Annwen, Keith a Rhian a theulu y diweddar Cwil, Bryn, ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau, llythyrau a negeseuon caredig a dderbyniwyd yn eu profedigaeth fawr.

Diolch yn fawr iawn am y rhoddion hael tuag at CLIC. Diolch yn arbennig i'r Parchedig John Pritchard a'r Parchedig Eric Roberts, a Roberts & Owen, Penygroes, Trefnwyr Angladdau am eu trefniadau trylwyr, caredig a chyfeillgar. Diolch o galon hefyd i Mair Huws wrth yr organ.

Carem fel teulu hefyd ddiolch yn ddiffuant i'r cannoedd o ffrindiau ddaeth i'r angladd i dalu'r gymwynas olaf i Cwil.

**MARWOLAETH.** Dydd Sadwrn, 3 Rhagfyr, bu farw un o blant y Cwm, sef Gwilym Jones (Seiont House) gynt. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod, Kathryn, y plant Siân a Dafydd a'u teuluoedd, ei chwiorydd a'i frodyr a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

**DATHLU'R NADOLIG.** Nos Fawrth, 6ed o Ragfyr, daeth pentrefwyr, rhieni a phlant y pentref at ei gilydd i ddathlu'r Nadolig. Trefnwyd y noson lwyddiannus yma gan aelodau o Bwyllgor Cymunedol y pentref. Bu Mrs Hilda Orritt yn troi'r golau ymlaen ar y goeden Nadolig ar fuarth yr ysgol ac roedd Siôn Corn ger y goeden wrth y garej (London Garage). Bydd y goleuadau ymlaen dros gyfnod y gwyliau.

Diolchodd y Cynghorydd Brian Jones i'r holl bentrefwyr oedd wedi gwneud yr achlysur yn un mor llwyddiannus, 'Balch iawn o weld cymaint o blant a'r rhieni yn dod at ei gilydd yn yr ysgol ar noson oer y gaeaf i ddathlu'r Nadolig a gobeithio nawr y bydd hyn yn sefydlu traddodiad tebyg yn flynyddol.'

Cyrhaeddodd Siôn Corn mewn da bryd i weld y plant ac i ganu carolau i fiwsig ffidil Cassi a'r dysgwyr. Aeth y gynulleidfa drosodd i gaffi Caban Menter Fachwen, oedd yn orlawn o bobl yn mwynhau paned a mins pei. Diolch i bawb am gyfrannu i'r noson a Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o bentref Cwm y Glo.

**CYFARCHION Y TYMOR.** Dymuna Mrs Mair Williams a Meirion, Elidir View, Bwlch, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

## Ysgol Cwm y Glo

Mae'r Cyfeillion wedi bod yn brysur yn trefnu gweithgareddau hwyliog unwaith eto y tymor hwn. Cafwyd Parti Noson Calan Gaeaf llwyddiannus gyda phlant, rhieni ac athrawon yn troi allan yn eu gwisgoedd ffansi. Diolch arbennig i'r rhieni gweithgar am addurno'r neuadd, diddanu'r plant ac yna'n aros i glirio'r cwbwl ac arbed Anti Chris! Yn anffodus bu rhaid gohirio y 'Bingo' ond bydd yn cael ei ail drefnu yn fuan yn y flwyddyn newydd – rhywbeth i edrych ymlaen tuag ato.

Roedd yna wirioni a hen edrych ymlaen at ddiwedd y Tymor. Diolch i'r Cyfeillion roedd tocyn i bantomeim 'Madog' i bob plentyn – pawb yn mwynhau ymuno yn yr hwyl. Yna parti gydag anrheg arbennig i bob un o'r plant gan yr hen Siôn Corn.

Mae dosbarth Peris yn diolch yn fawr iawn i'r Cyfeillion. Diolch iddynt hwy mae yna dŷ bach twt newydd, offer dringo a blociau mawr ar gyfer y gorlan chwarae.

Bu plant dosbarth Peris ar drên Siôn Corn, Llyn Padarn cyn ddiwedd y tymor. Cyfle i ofyn am rhywbeth bach arbennig yn yr hosan cyn ymadael gydag anrheg bach i ddisgwyl!

Diolch yn fawr iawn Anti Janet am ginio Nadolig bendigedig unwaith eto. Roedd pawb wedi mwynhau – yn enwedig y staff! Cyflwynodd y plant anrhegion bach i Anti Janet ac Anti Diane i ddangos eu gwerthfawrogiad o'u gofal trwy'r flwyddyn.

Braf oedd gweld plant, rhieni a staff yr ysgol yn cefnogi y Noson Garolau Gymunedol gyda chyn aelod a staff a ffrind yr ysgol, Anti Hilda, efo'r anrhydedd o oleuo'r goeden Nadolig.

Gyda diwedd y tymor daeth yr amser i ffarwelio â Mr. Rhodri Scott, myfyriwr o'r Brifysgol. Mae dosbarth Llydaw wedi cael hwyl yn ei gwmni - ac wedi dysgu llawer, wrth gwrs! Diolch yn fawr iawn am eich gwaith caled a phob lwc yn eich gyrfa.

Daeth pawb ynghyd i ddathlu'r Nadolig mewn gwasanaeth arbennig gan y plant yng nghapel Tabernacl ar ddiwedd tymor prysur. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Dymuna pawb yn yr ysgol Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll.

# BRYNREFAIL

**DIOLCH** Dymuna Dilys a Hugh, Min y Don a'r teulu oll ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli brawd Dilys, y diweddar Gwyn Jones, Caergybi.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** Yng nghyfarfod mis Hydref o'r gangen leol, croesawyd cangen Llandygai o'r Sefydliad i ymuno a'r aelodau. Roedd y noson dan ofal llywydd y gangen, Pat Jones. Cafwyd noson bleserus yn ei chwmni yn arddangos y grefft o drefnu blodau a rhoddwyd y trefniadau ar raffl ar ddiwedd y noson. Troi at thema'r gegin wnaed mis Tachwedd pryd y gwahoddwyd Edna Jones i arddangos y grefft o addurno cacennau Nadolig.Ar derfyn y noson cafwyd y Cyfarfod Blynyddol. Yn bresennol roedd Margaret Lloyd Jones a Gwenda Jones o Sefydliad Abererch. Etholwyd y swyddogion fel a ganlyn: Llywydd: Pat Jones, Ysgrifennydd: Carol Houston, Trysorydd: Vera Price. Nos Wener, Tachwedd 18fed mwynhaodd yr aelodau'r Sioe 'Scrooge' yn Llandudno a phrofodd y noson bingo yn Llanberis ar Ragfyr 12 yn llwyddiannus unwaith eto eleni.

**CYDYMDEIMLAD** Roedd yn ofidus gan rai o drigolion y pentref a oedd yn ei hadnabod yn dda ddeall am ymadawiad Meirionna Hughes (Price gynt) yn 86 mlwydd oed. Bu'n cartrefu yn ei hieuenctid ym Mhen Clogwyn un o'r tyddynod uwchlaw y pentref cyn symud i Fron Afon. Cofir yn fyw amdani fel un oedd yn cyd-redeg y Swyddfa Bost yn y pentref, yn gymwynsagar ac yn meddiannu ar bersonoliaeth lawen a hwyliog. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i phriod, Meirion Hughes, Caernarfon a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

**YR EGLWYS BRESBYTERAIDD DIOLCH A CHOFION** Yn yr oedfa nos Sul, Tachwedd 27ain, cydnabyddwyd gwaith Jennie Angharad Roberts yn trefnu dod a Blychau Nadolig y Plant ynghyd yn ôl ei harfer. Diolchwyd hefyd i'r aelodau a charedigion am eu cefnogaeth flynyddol i'r apêl.

Mae cofion yr eglwys yn mynd at y rhai na fu yn dda eu hiechyd yn ddiweddar gan ddymuno i'r cyfryw rai, aelodau a chydnabod yn ein plith holl fendithion Gŵyl y Geni a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll.

**OEDFAON IONAWR 2012**

1 am 4.00 Parch Iorwerth Jones Owen, Caernarfon
8 am 5.30 Mr Glyn Owen, Llanwnda
15 am 2.00 Parch D.John Pritchard, Llanberis
22 am 5.30 Parch Marcus Wyn Robinson, Bethel
29 am 5.30 Parch Deian Evans, Gofalaeth Bro Lleu

Cefnogwch ein hysbysebwyr

# Llyfrau Newydd y Nadolig

## Cyd-ddigwyddiad neu Ffawd?

Mae nofel ddiweddaraf Rhiannon Wyn yn llawn cyd-ddigwyddiadau – digwyddiadau a grybwyllwyd gan ddynes dweud ffortiwn mewn ffair. Neu ai ffawd sydd wedi rhag-drefnu'r cyfan? Mae'r stori'n arwain at ddiweddglo erchyll yng nghysgod Castell Caernarfon, a'r alarch du yn gweld y cyfan. Un eiliad, un castell, un alarch ac un corff.

Nofel dywyll a theimladwy am berthynas tri chymeriad yw Yr Alarch Du. Meddai'r awdur: 'Er nad ydw i wedi ei henwi'n uniongyrchol, mae'r nofel wedi ei lleoli yng Nghaernarfon. Mae hi'n dref hynod – yn cynnwys y cyfuniad ro'n i'n chwilio amdano o ddosbarth ganol a gweithiol, yn ogystal â hiwmor y sgwrs a phresenoldeb y castell unigryw a'r elyrch sy'n symbol yn y llyfr. Mae damcaniaeth yr alarch du yn cyfeirio at ddigwyddiad na ellir ei ragweld, ac sy'n cael effaith andwyol a phellgyrhaeddol ar fywydau a digwyddiadau, a'r daith sy'n arwain at hynny. Dyna ydi craidd y nofel.'

Mathew, John (ei dad) a Lara (ei gariad) yw'r prif gymeriadau ac mae'r nofel mewn tair rhan – pob rhan wedi'i neilltuo i adrodd y digwyddiadau o safbwynt pob cymeriad yn ei dro. Mae Lara'n cael ei swyno gan Mathew, sy'n cynnig awgrym o fywyd gwell, gwahanol iddi hi. Perthynas stormus yw hon ond mae'r ddau yn sylweddoli bod rhywbeth mawr ar droed a hynny'n eu clymu gyda'i gilydd. Mae John yn creu gwrthdaro gwahanol. Mae'n alcoholig, wedi rhoi'r gorau i'w waith fel ffotograffydd, a'i wraig ddosbarth canol, gapelog, barchus wedi dioddef llawer yn sgil problemau ei gŵr. Meddai Rhiannon, 'Dwi i'n cofio gwylio rhaglen deledu am Callum Best, mab George Best, yn ymweld â phlant i rieni â phroblemau diod. Roedd yn bwnc dyrys a chymhleth, ond sefyllfa unig oedd hon. Mi ddaeth y stori wedyn o siarad â ffrind am ddweud ffortiwn ac ro'n i wedi bod yn darllen tipyn am y cysyniad o synchronicity. Mi welais fod y thema ffawd yn datblygu – pa mor gaeth neu rydd ydi unigolyn ac felly o fanna y daeth y syniad ac wedyn datblygodd y cymeriadau.'

Cafodd Rhiannon Wyn ei magu yn ardal Caernarfon ac mae'n byw yn Llanwnda gyda'i gŵr. Dyma ei hail nofel. Enillodd ei nofel gyntaf, Codi Bwganod, Wobr Tir na n-Og 2010. Yn ôl Rhiannon, 'Mi fues i'n meddwl am y stori, gwneud gwaith ymchwil a phlotio am dros flwyddyn ond yna mi gafodd ei hysgrifennu yn ystod eira gaeaf y llynedd. Dwi i'n gobeithio ei bod hi'n nofel sy'n codi cwestiynau ac yn gwneud i rywun feddwl. Mae wedi ei hanelu at yr arddegau hŷn ond mae'r themâu yn reit dywyll a dw i'n gobeithio y gall apelio at oedolion hefyd.

Pris: £5.95, Y Lolfa






## Hunangofiant Tony ac Aloma

Am y tro cyntaf erioed ceir hanes onest a lliwgar y ddau eicon cerddorol a fu mor amlwg yng nghanu poblogaidd Cymru ers y 60au. Mewn gwirionedd mae tair stori i'w chanfod rhwng cloriau'r llyfr: stori Tony, stori Aloma a stori Tony ac Aloma. Yn eu geiriau eu hunain clywn am gyngherddau di-ri'r ddau ar lwyfannau ledled Cymru, gan gynnwys eu perfformiadau gyda Hogiau'r Wyddfa, Max Boyce a llu o artistiaid amlwg eraill yn ogystal â'u teithiau gyda Ryan a Ronnie. Mae'r gyfrol hefyd yn datgelu'r gwir am berthynas y ddau, gan gynnwys y cyfnodau anodd ac o ddadrithiad, problemau Tony a salwch Aloma, sydd wedi dioddef o ME ers ugain mlynedd.

"Mae'r ymateb pan ma pobol yn dallt nad ydi Aloma a fi'n ŵr a gwraig, neu mewn perthynas o unrhyw fath, yn union fel petai nhw newydd fod yn dyst i ysgariad," meddai Tony.

Ychwanegodd, "Do, mi fuon ni'n ffraeo yn ddigon cyson, ac mi fu gwahanu, ond dechreuodd rhwbath sbesial iawn y diwrnod cwrddais Aloma, rhwbath sbesial sydd wedi dod â'r atgofion gorau posib i ni'n dau." Mae'r llyfr hefyd yn sôn am eu gwesty yn Blackpool a'u bywyd yno erbyn hyn, sy'n denu ymwelwyr enwog fel Ken Livingstone a Margaret Beckett, a sêr y byd pop fel Gruff Rhys a Dafydd Iwan i berfformio yn gyson. Yn ôl Aloma, "Mi roedd Tony a finnau yn teimlo fod hi'n adeg iawn i'r hunangofiant, mae yn fodd o egluro'r berthynas a sut fath o greaduriaid ydan ni. Mae'n stori emosiynol a geirwir, does yna ddim pwynt i hunangofiant os nad ydych chi am fod yn onest."

Pris Tony ac Aloma: Cofion Gorau a gyhoeddir gan Y Lolfa yw £14.95. * Cafodd ei lansio mewn noson arbennig nos Wener, 9 Rhagfyr yng Ngwesty'r Gresham ym Mlackpool.

## Trychineb y tyrau yn Efrog Newydd a damwain yng Nghaerdydd

nofel newydd Lleucu Roberts

Efrog Newydd 9/11. Mae awyren ar fin taro un o dyrau'r Twin Towers.

Caerdydd 9/12. Mae car yn taro merch ifanc a'i lladd.

Ym meddwl Mair, ei mam, mae'r ddau ddigwyddiad yn mynd yn un. Mae hi'n methu anghofio na dianc rhag y dryswch.

Dyma fyd Siarad, nofel newydd Lleucu Roberts, awdures boblogaidd sydd wedi ennill gwobrau am ei gwaith. Mae'n stori gyfoes iawn sy'n trafod gwallgofrwydd ac anallu pobl i gyfathrebu gyda'i gilydd.

Deng mlynedd ar ôl cyflafan 9/11 mae pobl yn dal i gofio. Mae'r lluniau yn dal yn fyw ar deledu a'r we. Deng mlynedd ar ôl marwolaeth Marged, mewn damwain ar un o strydoedd y Brifddinas, mae'r golled yn dal yn fyw ym meddwl Mair.

'Wnaeth nifer uchel y marwolaethau-cyn-pryd y diwrnod cynt ddim atal un arall y diwrnod wedyn, fwy nag a wnaethon nhw erioed,' meddai Lleucu Roberts, un o'n hawduron mwyaf poblogaidd i oedolion a'r arddegau. 'Hedfan a llusgo run pryd wnaeth y blynyddoedd ers hynny i Mair, mam Marged. Nid yw hi eto wedi gallu camu ymlaen o'r digwyddiad a roddodd stop ar normalrwydd y teulu.'

Mae byd operâu sebon yn fwy diogel i Mair, ddeng mlynedd ar ôl y ddamwain, ac mae'n treulio ei hamser sbâr i gyd yn eu gwylio. Mae John, y gŵr, yn sgwennu operâu sebon, ac yn ei chael hi'n haws siarad gyda ffrindiau ar-lein. Y cyfrifiadur yw byd Siôn, 18 oed, a thrwy hwnnw mae o a Rachel, ei gariad, yn cyfathrebu ac yn cynllunio ar gyfer y dyfodol.

'Haws gan rai fyw bywydau'r bocsys na'u bywydau nhw eu hunain a siarad am yr hyn a ddigwyddodd,' meddai Lleucu Roberts, sy'n fam i bedwar o blant. 'Haws gan Mair siarad â Marged a byw sebon yn hytrach na wynebu ei realiti ei hun sy'n prysur freuo.

Siôn, y myfyriwr mewn cariad, yw'r unig un sy'n gweld y byd tu allan i'r bocs, yr unig un o'r tri sy'n codi llais rhag ein cau ni i gyd mewn bocsys cyfleus a'n bwydo â sebon.'

Mae'r cymeriadau a'r pynciau'n sicr o apelio at oedolion a'r arddegau wrth i'r nofel gyrraedd diweddglo dirdynnol.

Enillodd Lleucu Roberts wobr Tir na n-Og ddwy waith am Annwyl Smotyn Bach a Stwff – Guto S. O sir Aberteifi yn wreiddiol mae'n byw yn Rhostryfan ers pedair blynedd ar ddeg.

'Dyma nofel am wallgofrwydd, am fethu cyfathrebu, am wirionedd a rhith – nofel sy'n siarad am ein dyddiau ni,' meddai. Mae gan Lleucu nofel arall i oedolion yn y wasg ar hyn o bryd ac mae'n gweithio ar nofel arall i blant uwchradd.

Ysgol Brynrefail

Veritate - Scientia - Labore

*Disgyblion Brynrefs – da 'de"*
*"Katie, Sioned a Ffion*




Fe roddwyd yr her eto eleni i ddisgyblion Ysgol Brynrefail i gasglu anrhegion mewn bocsys er mwyn eu gyrru i blant llai breintiedig gyda'r slogan '1 bocs = 1 gwên.' Trefnwyd y cyfan gan Mrs Catrin Wyn Jones gyda chefnogaeth myfyrwyr blwyddyn 12, sef Katie Lewis, Sioned Evans a Ffion Erin Williams.

Y cyntaf i ddod â'i focs i'r Ysgol oedd Adam Bragan o ddosbarth 9N, sydd i'w weld yn cyflwyno ei focs i Mrs Jones.

Pan gyrhaeddodd cynrychiolydd gogledd Cymru, Mr Wyn Owen, a'i fan i hel y bocsys, cafodd y sioc fwyaf erioed oherwydd, yn ei eiriau ef:

"Mae hyn yn anhygoel. Yr Ysgol orau yng ngogledd Cymru!"

A'r cyfanswm gasglwyd? £402






Dosbarth 7S

Fe wnaeth Jordan Jones ,7S, lenwi tri bocs ac, yn ei eiriau ei hun -'Yr oeddwn yn meddwl y byddwn i yn cael lot o anrhegion 'Dolig a rhai pobl yn cael dim felly fe brynais frwsh dannedd, sebon a chadach, tedi, pensiliau lliw, papur lliwio, ceir bach a llyfrau. Rydw i'n falch dwi di rhoi tri bocs ac yn gobeithio gwneud plant bach yn hapus.'




Gosodwyd ac addurnwyd y goeden Nadolig eleni gan Hannah Hellfield a Rosie Benson, ac y mae'r ddwy a gweddill disgyblion a staff Ysgol Brynrefail yn dymuno 'Nadolig Llawen' iawn i holl ddarllenwyr Eco'r Wyddfa.

## Cymdeithas Rheilffordd Eryri



Pob dydd Iau y mae Gerallt Morris, Matthew Hughes, A fuoch chi erioed ar wibdaith ar reilffordd Eryri? Wel os na fuoch y mae siawns i chi deithio 40 milltir ar y cledrau cul drwy harddwch canol Eryri. Mae'r oll yn dibynnu ar wirfoddolwyr fel Gerallt Wyn Jones sy'n gweithio'n ddi-dâl i gynnal a chadw'r cledrau, atgyweirio gorsafoedd neu amrywiaeth o waith arall.


Mae Gerallt, sydd yn dod o Waunfawr wedi bod yn gweithio'n wirfoddol ar y rheilffordd am y chwe mis diwethaf ac yn ei eiriau ei hun:

'Roedd yn rhaid aros hyd nes fy mod yn un ar bymtheg oed cyn dechrau gweithio ond dwi nawr yn gwneud nifer o bethau gwahanol ac yn mwynhau'r cwbl. Unwaith i mi adael Ysgol rwyf am ddechrau gyrfa ar y rheilffordd ac yn gobeithio yn y dyfodol y câf hyfforddi i fod yn yrrwr trenau.'

Wel Gerallt, mae disgyblion blwyddyn 8 fu ar y trên mis Gorffennaf diwethaf, yn ddiolchgar iawn am bobl fel ti yn treulio amser i gadw'r rheilffordd yn mynd.


# "Y byd i'n disgyblion a disgyblion i'n byd"





## Llwyddiant Liam Bennett

Llongyfarchiadau calonnog i Liam Bennett, sy'n hanu o bentref Bethel, ar ei lwyddiant yn Karate trwy ennill y 'belt' du




## Llwyddiant Nofio Cian Halliday

Llongyfarchiadau i Cian Halliday, sy'n hanu o bentref Llanrug, ar ei lwyddiant yn Ymryson Gala John Sharp, a gynhaliwyd ym mhwll nofio Llandudno yn ddiweddar. Enillodd lwyth o fedalau wrth gynrychioli Clwb Nofio Caernarfon.

## PLANT MEWN ANGEN COLEG MENAI

Pob dydd Iau y mae Gerallt Morris, Matthew Hughes, Lewis Burns a Tomos Griffith yn dilyn cyrsiau yng Ngholeg Menai. Ar ddydd Iau, 17eg Tachwedd 2011, buont yn rhan o grwp wnaethant goginio a gwerthu cacennau o gwmpas y Coleg er mwyn codi pres tuag at Blant Mewn Angen.



## PLANT MEWN ANGEN

'Grrrrêt' meddai Toni y teigr, 'mae hi'n ddiwrnod "Plant mewn Angen" ac efallai y bydd rhai pobl yn cydymdeimlo â theigr mewn angen.'

Yr oedd Carwyn Lowe, y teigr o Waunfawr, ymhlith llu o ddisgyblion a benderfynodd wisgo dillad arbennig i ddathlu diwrnod 'Plant mewn Angen' yn Ysgol Brynrefail, ac yn wir fe gasglwyd £1,250 tuag at yr achos da.

Yn ystod yr awr ginio yr oedd y neuadd dan ei sang tra bu gornest 'Brynrefail's Got Talent' a llu o ddawnswyr, cantorion ac yn y blaen yn gwneud eu gorau o flaen y gynulleidfa.

Ac yn wir, dawns sgets Idwal a Jên aeth â'r gymeradwyaeth fwyaf ac yr oedd Chloe Roberts ac Iola Bryn Jones ar ben eu digon.

## Canlyniadau Eisteddfod Pentrefi Llanrug a Chwm y glo 2010

Hoffai Pwyllgor Eisteddfod Llanrug a Chwm y Glo ddiolch i'r canlynol am noddi'r Eisteddfod eleni:
Cyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo
Merched y Wawr, Cangen Llanrug
John Hughes-Jones (Y Dyn Cig)
Pat ac Edgar, Post Llanrug
London Garage, Cwm y Glo
Cwmni Gwyliau Arvonia
Cronfa Elw Park Jones
Gwesty Seiont Manor

Canlyniadau Llwyfan
**Unawd Dosbarth Derbyn:** 1af Alaw Angharad; Cyd. 2il Sara a Twm Brooks; Cyd. 3ydd Elen a Beca; Llefaru Unigol Dosbarth **Derbyn:** 1af Twm Brooks; Cyd. 2il Beca ac Emily; Cyd. 3ydd Alaw Angharad, Sara ac Alaw Swyn.
Unawd Blwyddyn 1 a 2: 1af Caio Siôn; Cyd. 2il Enlli a Buddug; Cyd. 3ydd Lowri, Tanwen a Iolo;
**Llefaru Unigol Blwyddyn 1 a 2:** 1af Enlli; 2il Erin Gwilym; 3ydd Erin Gibbard.
**Côr Babanod hyd at flwyddyn 2:** 1af Parti Ruth.
Unawd Blwyddyn 3 a 4: 1af Osian; Cyd. 2il Elliw a Tomi; Cyd. 3ydd Nel a Lea; Llefaru Unigol Blwyddyn 3 a 4: 1af Deian; 2il Tomi; 3ydd Elen.
**Unawd Blwyddyn 5 a 6:** 1af Leisa; 2il Miriam; 3ydd Iwan;
**Llefaru Unigol Blwyddyn 5 a 6:** 1af Leisa; 2il Molly; Cyd. 3ydd Elain a Miriam.
**Unawd Offerynnol Cynradd:** 1af Owain; Cyd. 2il Miriam a Heledd; 3ydd Teleri;
**Parti Llefaru Cynradd:** 1af Parti Eleri;
**Sgets Cynradd:** 1af Y Ddamwain; 2il Ffau'r Dreigiau;
**Cân Ysgafn / Grŵp Pop Cynradd:** 1af Candis Clên;
**Côr Cynradd:** Côr Ruth.
**Dawnsio Disgo i Grŵp Cynradd / Uwchradd:** 1af Angylion Kelly; Cyd. 2il Sêr Sebra a Difas Difyr; Cyd. 3ydd Angylion Bach Kelly, Angylion Lowri a Chriw Cari; Parti Dawns Werin **Cynradd / Uwchradd:** 1af Parti Elain; 2il Parti Abigail; Parti Stepio Cynradd / Uwchradd: 1af Clocswyr Cŵl.
**Unawd Uwchradd:** 1af Rhodri Llŷn; Cyd. 2il Ceri a Lleucu; Cyd. 3ydd Anna a Gwern;
**Llefaru Unigol Uwchradd:** 1af Math; Cyd. 2il Beca ac Anna; 3ydd Osian;
**Unawd Offerynnol Uwchradd:** 1af Math; 2il Gethin; Cyd. 3ydd Rhodri Llŷn a Gwern; Sgets Uwchradd: 1af Sgets y Sat Nav; 2il Gwyliau; Cyd. 3ydd Newyddion Da a Siop Ffrwythau;
**Cân Ysgafn/Grŵp Pop Uwchradd:** 1af Y Ceir; 2il Yr Hogia; 3ydd Acapela; Parti Llefaru Uwchradd: Cyd. 1af Yr Hogia Da a Parti Llio;
**Parti / Côr Agored:** 1af Côr 'Dal i Ganu'; 2il Criw Brynrefs.

**Enillwyr y Tlysau Llwyfan:**
**Cadair Lowri i Enillydd yr Unawd ym Mlynyddoedd 1 a 2:** Caio Siôn;
**Cwpan W. Park Jones am y Cyflwyniad Llefaru / Llafar Gorau (Cynradd):** Leisa Gwenllian;
**Tlws Bwlchgrwnog am y Perfformiad Cerddorol Cynradd Gorau:** Leisa Gwenllian;
**Tlws Er Cof am Eddie a Moreen Lennon am y Perfformiad Cerddorol Uwchradd Gorau:** Math Roberts;
**Rhodd Haf Roberts i'r Cyflwyniad Llefaru / Llafar Gorau (Uwchradd):** Rhun Meirion Williams.

### Canlyniadau Llên
**Blwyddyn 3 a 4:** 1af Nel; 2il Cara Wyn Jones; 3ydd Siwan Arwen Thomas;
**Blwyddyn 5 a 6:** 1af Leisa Gwenllian Brown; 2il Elain; 3ydd Bethania;
**Blwyddyn 7:** 1af Ceri Griffith; 2il Dion Jones; 3ydd Llinos Roberts;
**Blwyddyn 8 a 9:** 1af Math Roberts; 2il Nia Williams; 3ydd Hannah Owen;
**Blwyddyn 10 ac 11:** 1af Anna Wyn Jones; 2il Beca George; Cyd. 3ydd Llŷr Williams a Sian Williams;
**Blwyddyn 12 a 13:** 1af Ffion Erin Williams; 2il Rhodri Gruffudd Williams; 3ydd Awel Hughes;
**Tlws yr Ifanc:** Math Roberts; 2il Nia Williams;

**Cystadleuaeth Y Gadair:** 1af Ffion Erin Williams; 2il Rhodri Williams.

### ARLUNIO
**Meithrin:** 1/ Guto Ewart Pari;
**Derbyn:** 1. Alaw Swyn; 2. Beca Jones a Lona Efa Jones; 3. Luned Llwyd.
**Bl. 1:** Beth Whiteside Thomas; 2. Erin Gibbard; 3. Beca Fôn ac Osian Llyfni.
**Bl. 2:** 1. Mared Llwyd; 2. Aled Huw Jones; 3. Mali Brookes.
**Bl. 3:** 1. Elin Daniel; 2. Tomi Llewelyn a Matthew Glyn Roberts; 3. Nanw Llwyd.
**Bl. 4:** 1. Osian Land; 2. Guto Whiteside Thomas; 3. Cian Gibbard.
**Bl. 5:** 1. Anna Whiteside Thomas; 2. Rhydian Williams; 3. Elain Angharad Elis.
**Bl. 6:** 1. Harri Tulliver; 2. Teleri Medi Jones; 3. Erin Roberts-Khan.
**Bl. 7 ac 8:** 1. Sion Eifion Lloyd; 2. Gethin Wyn Jones; 3. Megan Pritchard a Ceri Fflur Griffith.
**Bl. 11, 12 ac 13:** 1. Anna Wyn Jones.
Cwpan Emma Bernard i'r arlunydd gorau: Anna Whiteside Thomas.

### TRI DIMENSIWN
**Meithrin/Derbyn (Addurn Nadolig):** 1. Luned Llwyd; 2. Beca Jones (Rapscaliwn) a Beca Jones (Cyw); 3. Twm Brookes.



*Criw dawn flodau*



*anna whiteside thomas - cwpan emma bernard*



*caio sion - cadair lowri*

### *Parhad Canlyniadau Eisteddfod*

**Bl. 1 a 2 (Het):** 1. Mali Brookes a Beth Whiteside Thomas; 2. Enlli Lloyd Jones ac Erin Gibbard; 3. Osian Llyfni a Beca Fôn Pari.
**Bl. 3 a 4: (Bwgan Brain):** 1. Osian Land; 2. Leia Nel; 3. Guto Whiteside Thomas.
**Bl 5 a 6 (Tacluswr desg):** 1. Teleri Medi Jones; 2. Moli Wyn Pritchard; 3. Anna Whiteside Thomas.
**Uwchradd (Model Carafan):** 1. Anna Wyn Jones; 2. Osian Evans; 3. Gethin Wyn Jones.

**TECSTILIAU**

**Babanod (Pyped hosan maneg):** 1. Beth Whiteside Thomas a Luned Llwyd; 2. Erin Gibbard, Catrin Beech ac Alaw Angharad Hughes; 3. Beca Fôn Parry, Mared Evans a Lona Efa Jones.
**Adran Iau (Cas Ffôn symudol):** 1. Anna Whiteside Thomas, Guto Whiteside Thomas ac Elis Gruffudd Edwards; 2. Cara Wyn Jones, Osian Eifion Land a Teleri Medi; 3. Gwion Evans ac Elain Angharad Elis.
**Uwchradd (Unrhyw eitem):** 1. Beca Llwyd; 2. Gethin Wyn Jones; 3. Anna Wyn Jones ac Osian Evans.

**COGINIO**

**Meithrin/Derbyn (Anifail ffrwythau):** 1. Ynyr Gwilym; 2. Luned Llwyd, Guto Parry ac Alaw Angharad Hughes.
Bl 1 a 2 (Bisgedi): 1. Dafydd Bryn Jones a Beth Whiteside Thomas; 2. Erin Gibbard; 3. Beca Fôn Parry.
Bl 3 a 4 (Brownis): 1. Cara Wyn Jones; 2. Ciab Gibbard a Nel Pennant Jones; 3. Osian Eifion Land.
Bl 5 a 6 (Brecwast Iach): 1. Anna Whiteside Thomas a Gwion Evans; 2. Miriam Catrin; 3. Teleri Medi a Moli Pritchard.
**Bl 7, 8 a 9 (Risoto):** 1. Osian Evans a Robin Whiteside Thomas; 2. Gethin Wyn Jones; 3. Sion Eifion Land.
**Agored – Merched (Quiche):** 1. Emma Williams; 2. Eirianwen Thomas ac Erin Blwyddyn 6 a Mam.
**Agored – Dynion (cyri):** 1. Irfon Jones.
**Jam/Marmalêd:** 1. Moli Wyn Pritchard; 2. Eirianwen Thomas; 3. Teleri Medi.
**Saws:** 1. Teleri Medi; 2. Megan Wyn Pritchard; 3. Cari Wyn Pritchard.
**Cyffug:** 1. Eirianwen Thomas; 2. Robin Whiteside Thomas.

**GOSOD BLODAU**

**Agored (Addurn Priodas):** 1. Meirwen Lloyd; 2. Mair Parry/Megan Pritchard; 3. Marc Roberts.

**FFOTOGRAFFIAETH**

**Unrhyw lun ar y thema 'Dathlu':** 1. Irfon Jones; 2. Guto Whiteside Thomas; 3. Sion Eifion Land.

**DYLUNIAD CYFRIFIADUROL**

**Adran Babanod (Ffrind/Ffrindiau):** 1. Erin Gibbard; 2. Beth Whiteside Thomas; 3. Mared Evans.
**Adran Iau (Calendr):** 1. Osian Eifion Land; 2. Elis Gruffudd; 3. Cian Gibbard.
**Uwchradd (Pamffled hybu eich pentref):** 1. Osian Evans.

**PROFEDIGAETHAU.**
Yn 95 mlwydd oed bu farw Mr Cledwyn Williams, gynt o Tŷ'r Ysgol. Bu Mr Williams yn Brifathro Ysgol Llanrug am flynyddoedd ac yn dilyn hynny, wedi ei ymddeoliad, yn byw yn Tŷ'r Ysgol ac yn gymeriad a welid yn cerdded bob dydd o amgylch y pentref yn cael sgwrs â hwn a'r llall. Bydd colled ar ei ôl a chydymdeimlwn â Ceridwen a Mary, ei ddwy ferch a'r teulu i gyd.
Wedi gofal arbennig iawn gan Jude a'r teulu, bu farw Merfyn Charles Jones yn 52 mlwydd oed. Person hynod o annwyl gyda chymeriad bendigedig oedd Merf. Bydd colled enfawr ar ei ôl, nid yn unig i'r teulu ond i'w ffrindiau a chydweithwyr i gyd.
Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â'r teulu i gyd gan obeithio y bydd yr atgofion melys amdano yn gymorth i chi.

**CYFARCHION NADOLIG.** Dymunwn Nadolig Dedwydd i chi i gyd. Cofiwn hefyd am drigolion y cartrefi preswyl yn yr ardal a'r rhai hynny fydd mewn ysbytai dros yr Ŵyl.

**PROFEDIGAETH.** Unwaith eto rydym yn cydymdeimlo yn ddiffuant iawn â Phillip a Beryl Griffiths, Llecyn, Ffordd Llanberis yn eu profedigaeth o golli mam annwyl a nain hynod i Meleri a Fflur.

**CAPEL Y RHOS.** Gyda'r gweinidog, y Parch. Marcus Wyn Robinson yn gweinyddu, bedyddiwyd Jac. Mae'n fab bach i Malcolm ac Eryl Williams, Erw Wen, Nant y Glyn ac yn frawd bach annwyl iawn i Elain.

**PÊL BONWS YR URDD**
Dyma ganlyniadau y mis diwethaf. Tachwedd 19 – Rhif 45 – Bethanne Williams, Disgwylfa. Tachwedd 26 – Rhif 15 – Helen Parry, Ceunant. Rhagfyr 3 – Rhif 8 – Mary, Y Ddôl, Bethel. Rhagfyr 10 –m Rhif 20 – Margaret Christian, Corlan y Rhos.

**SEFYDLIAD COFFA**
Enillwyr Clwb Cant Tachwedd
1...Melfyn Jones, 21 Rhos Rug
2...Mrs M Parry, Bryn Heli
3...D Whiteside Thomas, Bronynant

**PLAID CYMRU**
Enillwyr Clwb Cant Rhagfyr
1..Meirwen Lloyd, Afallon, Bryn Moelyn
2..Gwenda Roberts, Lleifior

**Diolch.** Dymuna Hefin Goronwy Jones, 37 Glanffynnon, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau, cymdogion a chyd-weithwyr am y caredigrwydd, y rhoddion, y cardiau a'r holl gydymdeimlad a ddangoswyd tuag ato ar achlysur colli ei annwyl wraig, Menna. Diolch yn arbennig i staff Ward Gogarth, Ysbyty Gwynedd am eu gofal, ac i Dylan Griffith a'r Parch John Pritchard am eu gwasanaeth.

**Nadolig.** Oherwydd ei brofedigaeth ddiweddar, ni fydd Hefin Goronwy Jones, 37 Glanffynnon yn danfon cardiau Nadolig eleni. Hoffai ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i'w holl deulu, ffrindiau a chymdogion.


*leisa gwenllian (cwpan bwlchgrwnog a w.park jones)*


*Math Roberts • Tlws yr ifanc*


*Rhai bach yn cystadlu*

## Canlyniadau Celf a Chrefft Eisteddfod Llanrug a Chwm y Glo 2011

**ARLUNIO**
**Arlunio Meithrin**
1. Guto Ewart Pari
**Arlunio Derbyn**
1. Alaw Swyn
2. Beca Jones a Lona Efa Jones
3. Luned Llwyd
**Arlunio - Blwyddyn 1**
1. Beth Whiteside Thomas
2. Erin Gibbard
3. Beca Fôn Parry ac Osian Llyfni
**Arlunio – Blwyddyn 2**
1. Mared Llwyd
2. Aled Huw Jones
3. Mali Brookes
**Arlunio - Blwyddyn 3**
1. Elin Daniel
2. Tomi Llewelyn a Matthew Glyn Roberts
3. Nanw Llwyd
**Arlunio Blwyddyn 4**
1. Osian Land
2. Guto Whiteside Thomas
3. Cian Gibbard
**Arlunio – Blwyddyn 5**
1. Anna Whiteside Thomas
2. Rhydian Williams
3. Elain Angharad Elis
**Arlunio Blwyddyn 6**
1. Harri Tulliver
2. Teleri Medi Jones
3. Erin Roberts-Khan
**Arlunio - Blwyddyn 7 ac 8**
1. Sion Eifion Lloyd
2. Gethin Wyn Jones
3. Megan Pritchard a Ceri Fflur Griffith
**Arlunio - Blwyddyn 11, 12 ac 13**
1. Anna Wyn Jones
Cwpan Emma Bernard i'r arlunydd gorau.
Anna Whiteside Thomas

**TRI DIMENSIWN**
**Tri Dimensiwn Meithrin / Derbyn (Addurn Nadolig)**
1. Luned Llwyd
2. Beca Jones (Rapscaliwn) a Beca Jones (Cyw)
3. Twm Brookes
**Tri Dimensiwn Blwyddyn 1 a 2 (Het)**
1. Mali Brookes & Beth Whiteside Thomas
2. Enlli Lloyd Jones ac Erin Gibbard
3. Osian Llyfni a Beca Fôn Parri
**Tri Dimensiwn Blwyddyn 3 a 4 (Bwgan Brain)**
1. Osian Land
2. Leia Nel
3. Guto Whiteside Thomas
**Tri Dimensiwn Blwyddyn 5 a 6 (Tacluswr desg)**
1. Teleri Medi Jones
2. Moli Wyn Pritchard
3. Anna Whiteside Thomas
**Tri Dimensiwn Oedran Uwchradd (Model Carafan)**
1. Anna Wyn Jones
2. Osian Evans
3. Gethin Wyn Jones
**TECSTILIAU**
**Tecstiliau Adran Babanod (Pyped hosan/maneg)**
1. Beth Whiteside Thomas, Luned Llwyd
2. Erin Gibbard, Catrin Beech, Alaw Angharad Hughes
3. Beca Fôn Parry, Mared Evans, Lona Efa Jones
**Tecstiliau Adran Iau (Cas ffôn symudol)**
1. Anna Whiteside Thomas, Guto Whiteside Thomas, Elis Gruffudd Edwards
2. Cara Wyn Jones, Osian Eifion Land, Teleri Medi
3. Gwion Evans, Elain Angharad Elis
**Tecstiliau Oedran Uwchradd (Unrhyw eitem)**
1. Beca Llwyd
2. Gethin Wyn Jones
3. Anna Wyn Jones, Osian Evans
**COGINIO**
**Coginio Meithrin / Derbyn (Anifail ffrwythau)**
1. Ynyr Gwilym
2. Luned Llwyd, Guto Parry, Alaw Angharad Hughes
**Coginio Blwyddyn 1 a 2 (Bisgedi)**
1. Dafydd Bryn Jones, Beth Whiteside Thomas
2. Erin Gibbard
3. Beca Fôn Parry
**Coginio Blwyddyn 3 a 4 (Brownis)**
1. Cara Wyn Jones
2. Cian Gibbard, Nel Pennant Jones
3. Osian Eifion Land
**Coginio Blwyddyn 5 a 6 (Brecwast Iach)**
1. Anna Whiteside Thomas, Gwion Evans
2. Miriam Catrin
3. Teleri Medi Jones, Moli Pritchard
**Coginio Blwyddyn 7,8 a 9 (Risotto)**
1. Osian Evans, Robin Whiteside Thomas
2. Gethin Wyn Jones
3. Sion Eifion Land
**Coginio Agored – Merched (Quiche)**
1. Emma Williams
2. Eirianwen Thomas, Erin Blwyddyn 6 a Mam
**Coginio Agored – Dynion (/cyri)**
1. Irfon Jones
**Coginio Agored Jam/ Marmalêd**
1. Moli Wyn Pritchard
2. Eirianwen Thomas
3. Teleri Medi
**Coginio Agored 'Saws'**
1. Teleri Medi
2. Megan Wyn Pritchard
3. Cari Wyn Pritchard
**Coginio Cyffug**
1. Eirianwen Thomas
2. Robin Whiteside Thomas
**GOSOD BLODAU**
**Gosod Blodau Agored (Addurn Priodas)**
1. Meirwen Lloyd
2. Mair Parry / Megan Pritchard
3. Marc Roberts
**FFOTOGRAFFIAETH**
**Ffotograffiaeth (Unrhyw lun ar y thema 'Dathlu'**
1. Irfon Jones
2. Guto Whiteside Thomas
3. Sion Eifion Land
**DYLUNIAD CYFRIFIADUROL**
Dyluniad Cyfrifiadurol Adran Babanod (Ffrind / Ffrindiau)
1. Erin Gibbard
2. Beth Whiteside Thomas
3. Mared Evans
**Dyluniad Cyfrifiadurol Adran Iau (Calendr)**
1. Osian Eifion Land
2. Elis Gruffudd
3. Cian Gibbard
**Dyluniad Cyfrifiadurol Oedran Uwchradd (Pamffled hybu eich pentref)**
1. Osian Evans

## Un funud fach ...

I.G.

Gwelais bennawd trawiadol mewn cylchgrawn Cristnogol Saesneg yn gynharach yn y mis, "Christmas starts with Christ!" Gwaetha'r modd, fedrwn ni mo'i gyfieithu i'r Gymraeg. Oni bai, hynny yw, ein bod yn dweud rhywbeth fel, "Mae'r Nadolig yn gorffen efo I.G. – Iesu Grist". Dim cweit mor drawiadol, mae arna i ofn.

Trueni pethau yma yng Nghymru, fel mewn sawl lle arall, yw mai'r hyn sydd yng nghanol y Nadolig i lawer o bobl yw doli. Yn aml iawn, rhyw ddoli o ddyn bach neis yw baban y preseb, yn hytrach na Mab Duw a Cheidwad byd. Nadolig tlawd rhyfeddol yw hwnnw sy'n gweld dim ond doli o Grist ym mhreseb Bethlehem.

Un o gymwynasau mawr y Nadolig yw ei fod yn rhoi cyfle i ni ganolbwyntio bob blwyddyn ar y gwirioneddau mawr am yr Arglwydd Iesu Grist. Fe'n hatgoffir am yr hyn a ddigwyddodd adeg ei eni ym Methlehem. Ond fe'n hatgoffir hefyd am bwy a anwyd, a pham yn union y cafodd hwn ei eni. Cawn edrych o'r newydd eleni ar Mair a Joseff a'r bugeiliaid a'r doethion, a'r babi oedd yn wrthrych sylw'r byd. Ac wrth wneud hynny, cawn glywed eto mai Mab Duw a Gwaredwr pechaduriaid yw hwn. Cawn ddotio drachefn wrth gofio iddo ddod o'r nef i'r ddaear er ein mwyn. Dyma destun ein cân, a gwrthrych ein serch a sylwedd ein ffydd.

Ond mae'r olwg hon ar Grist yn dibynnu ar un peth syml iawn, sef ein bod yn credu tystiolaeth y Beibl amdano. Oherwydd yno, yng Ngair Duw, y dysgwn ni amdano; yno y gwelwn ac y clywn y gwirioneddau mawr sy'n goleuo ac yn llonni'r galon. Y dystiolaeth Feiblaidd sy'n dangos y Gwaredwr i ni. Heb y dystiolaeth honno, wyddom ni ddim oll o werth amdano. A dyna pam ei bod mor bwysig fod y cyfan a ddywedwn amdano yn seiliedig ar yr hyn sydd wedi ei ddatguddio yn y Beibl. Ein tasg a'n braint ni yw derbyn a cheisio deall popeth a ddywed y Gair am y person unigryw hwn. Mae'n dasg enfawr wrth reswm, ond yn hynod o gyffrous am fod yr Ysgrythur, o'i gyfoeth mawr, yn dod â rhywbeth newydd i'r golwg o hyd wrth i ni ei astudio'n ddisgwylgar ac addolgar.

Ond mor aml y clywn ni bobl yn anwybyddu'r union dystiolaeth hon, gan fynnu doethinebu ynghylch y person hwn. Gwrthodir llawer o'r hyn a ddywedir amdano, yn cynnwys pethau mor sylfaenol ag iddo gael ei eni o forwyn, iddo fyw yn berffaith, iddo ddweud ei fod yn Fab Duw, iddo farw o'i fodd ar Galfaria, ac iddo ddod yn ôl yn fyw o'r bedd. Ond o wrthod y gwirioneddau hyn, beth sydd ar ôl ond doli o Grist yn ôl dychymyg a thâst, ac ie, yn ôl mympwy pobl.

Na doli! IG!

*JOHN PRITCHARD*

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth*

## Pryd i Bawb



Arlwyo at bob achlysur yn unrhyw leoliad
Bwffe blasus o safon
• Priodas •
Cyfarfodydd busnes
• Bedydd/Parti/Te angladd
• Basged Picnic
• Bwyd yn unig neu gwasanaeth llawn

Cerid Mackinnon
Ffôn: 01286 673190
Symudol: 07774 925502

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym mro Eco'r Wyddfa*



oddi wrth

## WAVELL'S

**Bryn ac Angela Williams**

**CIGYDD**

**LONDON HOUSE LLANRUG**

**Ffôn: Caernarfon 673574**

PEN CIGYDD Y FRO
MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI

# ECO'r Wyddfa

*Nadolig Llawen i bawb*

## *Cyfarchion Nadolig* LLanrug

## Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?
Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?
Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

**Dennis & Julie Jones**
01286 650255

## CERIS JONES

**Teglan,**
**Stâd Talybont**
**LLANRUG**
**677362**
neu symudol
**07979620996**

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol


Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

## BRYN AFON ENGINEERING LTD

**PEIRIANWYR MECANYDDOL**



Arbenigwyr mewn pob math o waith metel
**GWAITH BRYN AFON**
**LLANRUG, Ffôn: 675523**



## GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati am brisiau cystadleuol

**Uned 1, Fferm Bryn Afon**
**LLANRUG**
**Ffôn: (01286) 674183**
**(0589) 899901**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddiwrth pawb yng NGHARTREF



## Y Foelas

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG

Ffôn: 01286 674 652


## E. LL. PARRY M.S.S.CH M.B.CH.A

## CHIROPODIST

**HPC COFRESTREDIG**

GWASANAETH YN EICH CARTREF

**Ffôn LLANRUG 675754**



## J.M. JONES
*a'i Feibion*
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda*

## ARVONIA





- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grwp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau

**Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA**
Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126
E-bost: info@arvonia.co.uk • Gwefan: www.arvonia.co.uk

**ECO'r Wyddfa** *Nadolig Llawen i bawb*

*Cyfarchion Nadolig*
**LLanrug**


DYMUNA
GWYNFA A MARGARET
**PRITCHARD**
GWERTHWYR LLEFRITH
CEFN LLWYD
LLANRUG
Ffôn 872263
NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL



**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddiwrth Elaine a Staff**
**Siop Trin Gwallt a Harddwch**
***Elaine's***
**LLANRUG**
**Ffôn: 01286 672 023**

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n cwsmeriaid i gyd oddi wrth*
**IONA A STAFF**
**SIOP CHIPS TEGFAN**
Y Sgwâr, LLANRUG
**07948 574 354**

CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH
**DENNIS ROBERTS**
(Glyn Roberts a'i Fab)
**DYNION GLO LLANRUG**
**Ffôn: 675043**
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn



*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda*
oddi wrth
**Y DYN CIG**
**BRYNAFON, LLANRUG**
**675190 - 673188**
**Symudol: 07798 718188**
Gwasanaeth lleol ar gyfer
Partion - Priodasau
Penblwydd - Bedydd - Dawns - Gwyliau
RHOSTIO MOCHYN ar gyfer pob achlysur
Cig o ffermydd lleol. Partion rhwng 40 a 400!
Dewcs mae o'n flasus!
Cysylltwch a John Hughes Jones ar un o'r rhifau uchod

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda**
**oddi wrth**
**WENDY**
**a**
**STAFF**
**TAFARN**
**PENBONT**
**LLANRUG**
**Lle braf a chwmni difyr dros wyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
Dave, Bobbie a staff y
**GLYNTWROG**
**LLANRUG**
**671191**
Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol
Bydd croeso cynnes yma dros yr ŵyl

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda*
oddi wrth bawb yn siop
**LONDIS**
**FFORDD YR ORSAF**
**LLANRUG** LONDIS
Ffôn:**672937**
**Y gwerth gorau'n lleol**
- Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn
- Dewis da o fwyd a diod i ddathlu'r Ŵyl o ben bore tan yn hwyr y nos!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
**PAT AC EDGAR**
**SWYDDFA'R POST**
**LLANRUG**
**Ffôn: (01286) 672422**



# ECO'r Wyddfa
*Nadolig Llawen i bawb*

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda*

**FFRAMIA**
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922)
www.fframia.com
www.fframia.com
Gwasanaeth Fframio Lluniau
Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen Keith Andrew a mwy




*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda*
SWIGOD A SEBON
**SYCHLANHAU**
Altro • Ailwnïo
GWASANAETH
Casglu a Danfon
Gwasanaeth Golchi a Smwddio
54 STRYD FAWR LLANBERIS
(01286) 870088

# E. W. Pritchard
**CENTRAL GARAGE, Llanberis**
Ffôn: (01286) 870202
TREFNWYR ANGLADDAU
*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Llanberis a'r cylch*

**Nadolig Llawen a BLWYDDYN NEWYDD DDA**
J2O
**Gwasanaeth Gwres a Plymio**
safe
*Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio*
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
*Arwel Jones • Tyn y Maes • Cwm y Glo LL55 4DH*
*Tel. (01286) 872225 Mobile- 07798 746718*

**BOCS O FFRWYTHAU A LLYSIAU**
**£10.** Wedi ei ddanfon AM DDIM yn lleol
ffoniwch- WIL, PEN-LLYN 07990926484

# GERAINT OWEN CARPEDI
**CARPEDI • VINYLS • TEILS**
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
*A RHAI MEWN STOCK*
Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill Bontnewydd
(01286)650552 Mob. 07712779475

**Problem gyda'ch cyfrifiadur?**
Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch
â Gomer Roberts
Ffôn : 01286 870462
Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

# Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Teithio
- Larymau Personol
- Yswiriant Car
- Nwy a Thrydan
- Cynlluniau Angladdau



**Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:**
Age Concern Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen, Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: **01268 678310**
ar agor 9am–5pm

Neu ffoniwch **0800 085 3741** neu ewch i
**www.ageuk.org.uk/products**

AGE Concern
ageUK

**Darperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig.**
**Darperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig.**
Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Defnyddir enw a logo Age UK o dan gytundeb trwydded rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau masnachol. Rhoddir yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Linhoy House, Ashburton, Devon TQ13 7UP. ID9975 11/10
MP2430V2APR11_SL033842_11

Cydnabyddir cefnogaeth
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government
BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth**
**Richard S. Humphreys**
**Ffôn/Ffacs: (01286) 870882**
FINE ART TRADE GUILD
**ORIEL CWM**
**Cwm-y-glo**
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

**Am gymorth:**
- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

MANTELL GWYNEDD
*Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol*
*Supporting voluntary and community groups*
**cysylltwch â Mantell Gwynedd**
yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1066651 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA**

# Cyngor Llanddeiniolen.

## Cofnodion Cyfarfod y 6ed o Ragfyr 2011.

**Yn bresennol :-** Y Cadeirydd R.Hefin Williams a'r Cynghorwyr Phyllis Ellis, Huw P.Hughes, Geraint Hughes, Phylip Jones, Richard Llwyd Jones, Elspeth Mitcheson, Merfyn Morris, Jane Pierce, Rachel Williams, Elfed Williams, Gwilym Williams a'r Cynghorydd Sir Mrs Pat Larsen.

**Gweddi.** Offrymwyd y weddi agoriadol gan Richard Ll.Jones.

**Datgan buddiant.** Nid oedd datganiad.

**Cofnodion Tachwedd.** Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir. (1) Elfed Williams (2) Phyllis Ellis.

**Materion o'r cofnodion.**

**Etholiadau Cyngor Cymuned 2012.** Cyfeiriodd Phyllis Ellis at adroddiad Gwynedd :- "Os bydd yr etholiad yn y gymuned/ ward yn ddi-wrthwynebiad fe godir tâl o £100 fesul ardal (ward) etholiadol. Penderfynwyd gofyn i Wynedd ar ba sail y gellir codi tal os na fydd gwrthwynebydd.

**Y Caban, Brynrefail.** Gofynnodd Richard Ll.Jones a oedd ateb oddi wrth Reolwr y Caban a chan nad oedd ateb, awgrymodd bod Pat Jones yn cynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd y Caban.

(1) Phyllis Ellis (2) Richard Ll.Jones

**Graffiti yn Bryn Llŷs, Dinorwig.** Ateb Steffan Jones ei fod wedi trosglwyddo'r mater i Gerwyn Jones.

Biniau mân sbwriel Deiniolen. Ateb Steffan Jones y bydd yn canfod beth yw'r sefyllfa ac ateb yn ôl.

**Llwybrau diogel i ysgolian.** Ateb Dafydd Wyn Jones bod "Llwybrau Diogel i Ysglion" wedi ei newid i "Llwybrau Diogel i Gymunedau". Manylodd ar hanes y ddwy hen bont ger Felin Hen ac esbonio bod cyllid ar gyfer gwaith fel y bont newydd sydd yno yn dod o ffynhonnell wahanol.

**Trem Eilian Brynrefail.** Ateb Meirion Jones yn amlwg ei fod wedi cam ddeall y lleoliad. Danfonwyd llythyr arall iddo yn cywiro hyn.

**Cau ffordd dros dro.** Rhybydd Gwynedd y ceir y ffordd o Gors Bach i Tan Dinas o'r 3ydd o Ionawr i adnewyddu pibell ddŵr, disgwylir cwblhau'r gwaith o fewn 3 Mis.

**A4244.** Mae pentrefwyr Rhiwlas yn paratoi deiseb i leihau'r cyflymder o Groeslon Tŷ Mawr i gyfeiriad Pentir ac yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor. Amlygwyd gwahanol farn :- mae'n ffordd dda ond bod troeadau rhwng y ddwy fferm. Penderfynwyd gofyn i Wynedd am ystadegau damweiniau rhwng groeslon Tŷ Mawr a chyffordd Rhiwlas.

**Gohebiaethau a Materion eraill.**

Lleisiau Llanbabs – cyflwynwyd cais Lindsey Vaughan Pleming am gymorth ariannol at gostau'r côr plant sydd wedi cael gwahoddiad i gynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth yn yr Wyl Ban Geltaidd yn Carlow, Iwerddon. Penodwyd swm o £200.

(1) Geraint Hughes (2) Gwilym Williams.

**Dafydd Einion Jones.** Croesawodd y Cadeirydd D.E.J i fanylu ar y gwahanol ffynonellau cyllid ar gyfer cofnodi mwy o hanes yr ardal. Trafodwyd y posibiliadau map arall neu, yn fwy ymarferol, sefydlu gwefan i'r Cyngor. Y dewis arall o bosib fydd cael lle ar wefan Cyngor Gwynedd neu Menter Fachwen. Gallai gwefan ddangos cymeriadau'r ardal yn ogystal hanes. Penderfynwyd aros i weld canlyniad cais Gwynedd a Cadw ar y cŷd am nôdd o Ewrop a gwahodd Mr Roland Evans i gyfarfod y Cyngor ymhen tua tri mis.

Bydd angen cysylltu a chymeriadau'r fro a'r ysgolion ac arbenigwr i gysylltu'r Cyngor â'r wê a chymorth gareth Roberts â'i wybodaeth hanesyddol

Cyfeiriodd Huw P.Hughes at y ffaith bod yr ardal yma wedi cael ei hanwybyddu droeon gan yr "Ardal Llechi" Llanberis. Ychwanegodd Elspeth Mitcheson mai ymylol ydym ni – dim gwahoddiad i'r "pethe". Dywedodd Phyllis Ellis bod Fforwm Padarn hefyd â'r un agwedd er bod y Chwarel yn Llanddeiniolen ac nid yn Llanberis. Ar yr un testun dywedodd Gwilym Williams nad ydym yn cael gwybod am weithgareddau Ysbyty Chwarel.

**Gohebaethau a materion eraill (parhâd)**

**Cysgodfeydd bws.** Dywedodd Phyllis Ellis ei bod yn oer iawn yn y gysgodfa ym Mhenisa'rwaun yn enwedig i oedolion gan bod cymaint o'r paneli ar goll. Trafodwyd y sefyllfa yn gyffredinol gan dybio, efallai, na fydd cymaint o fandaleiddio pe bai'r paneli yn cael eu hail osod. Penderfynwyd gofyn pris i G.L.Jones, Bethesda am adnewyddu paneli cysgodfeydd Bethel (wrth yr ysgol), Penisa'rwaun, Brynrefail a Rhydfadog, Deiniolen. Ar ôl derbyn y prisiau gwneir penderfyniad naill ai i'w hatgyweirio neu glynu at y penderfyniad gwreiddiol o'u gwneud yn ddiogel yn unig.

**Blodau Mis Mawrth.** Gofynnodd Hefin Williams a oes modd cael blodau wrth ochr ffyrdd

Pentir, Rhiwlas a Bethel. Dywedodd Phyllis Ellis bod Cyngor Llanrug am archebu llawer iawn mwy eleni. Amlygodd Geraint Hughes bryder gan bod cynnal a chadw llecynnau gwyrdd lle mae blodau Mis Mawrth yn hunllef. Addawodd y Clerc ofyn i Glerc Llanrug beth yw côst y bylbiau ac o lle maent yn eu cael.

**Dwyn o geir.** Anfonodd Len Jones neges i'r cyfarfod bod llawer o ddwyn o geir yng ngwaelod Deiniolen a Chlwt y Bont gan ofyn am rybydd yn Eco'r Wyddfa i atgoffa pobl i ofalu cloi eu ceir wrth barcio.

**Cynllunio.** Cyflwynwyd llythyr Huw P.Hughes yn amlygu bwriad Gwynedd i baratoi Cynllun Datblygu Lleol a'i ddadl bod angen cynrychiolaeth leol i sicrhau disgwyliadau'r fro o ran yr economi, y gymdeithas a'r amgylchedd. Trafodwyd ei wahoddiad i ddau/ddwy gynrychiolydd o'r Cyngor fynychu cyfarfod i drafod a chytuno ar gynigion i'w rhoi allan i'r gymuned gyfan cyn cyflwyno argymhellion i Wynedd. Penodwyd Jane Pierce a Richard Llwyd Jones.

**Derbyniwyd dau gais :-**

Erw Fair, Deiniolen – codi modurdy a gweithdy.

Tŷ Mawr Farm, Llanddeiniolen – codi sied amaethyddol.

**Llwybrau.**

Derbyniwyd ateb Gwynedd eu bod wedi ymdrin a'r diffygion ar lwybrau 49, 50 a 141, Fachwen a bod ffens llwybr Gorlan y Bont i'w atgyweirio o ganlyniad i'w llythr y 24 Mehefin. Gan nad oedd Len Jones yn bresennol addawodd y Clerc gysylltu ag ef.

Rhiwlas. Dywedodd Hefin Williams bod clô yn cael ei ddwyn oddi ar gât ar y llwybr (139)

y tu Cefn i'r Stryd Uchaf a cheffylau yn crwydro allan – angen dwy gât mochyn newydd

Dyddiad y cyfarfod nesaf :: 3ydd o Ionawr 2012

**Nadolig Llawen**
**A Blwyddyn Newydd Dda**
**i holl ddarllenwyr yr Eco**

Hoffwn ddiolch i'n cwsmeriaid lleol am eu cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn!

caban cyf

**Caffi Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail**
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)




BOSCH Service
OFT Approved code

MOT
www.a-v-w.co.uk
01286 673559
CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU
AVW BOSCH Car Service

# PADARN LAKE
LLANBERIS (01286) 870260



BWYDLEN NADOLIG
AR GAEL 'NAWR
CINIO DIWRNOD NADOLIG
12 o'r gloch YMLAEN

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng 12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00
Prydau DA ar gael pob dydd, canol dydd a gyda'r nos
Cyfleusterau- Partion • Priodasau ac Achlysuron Arbennig

Mae'n rhaid i mi siarad hefo rhywun



Y SAMARIAID
(01248) 674985

## Cist Gymunedol

**Awydd £1,500 tuag at eich prosiect chwaraeon cymunedol?**

Mae'r Gist Gymunedol yn cynnig grant o hyd at £1,500 i gefnogi cynlluniau chwaraeon a gweithgareddau egniol newydd neu ychwanegol yn y gymuned.

**Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:**
Rhian Dobson
Swyddog Datblygu Chwaraeon
rhianelendobson@gwynedd.gov.uk
Rhif ffôn: 01758 704 057

www.gwynedd.gov.uk

# DODREFN a LLORIAU
# PERKINS
# SÊL Y GAEAF

Gwasanaeth Mesur aFfitio

**Yn Dechrau Am 10o'r gloch**
**Dydd Mercher Rhagfyr 28**

**10% ODDI AR BRISIAU'R SÊL**
**HEFO'R HYSBYSEB HWN**
**rhwng Rhagfyr 28th. a 4ydd. o Ionawr**

**2 Canolfan Pen-llyn, Caernarfon, Ffôn (01286) 676040**

Yn ogystal a DODREFN, cofiwch hefyd am ein dewis *MAWR* o GARPEDI a LLORIAU PREN

# "Wyneb yn Wyneb"

## Cyfansoddiad Buddugol Cystadleuaeth Y Gadair, Eisteddfod Llanrug a Chwm y Glo

**Ffion Erin Williams**



'Cari Griffiths a'i dyn cudd.'
'Tri dyn mewn tair wythnos i *Cari G!*'
'Cari G yn ennill pedair pwys! Babi ynteu bwydlen farus?'

Roedd pethau llawer haws i Eifion Dafis yn ystafell y Bos y dyddiau hyn nac yr oeddent bedair mis yn ôl pan gychwynnodd gyda'r cwmni gyda'i gamera syml a'i feiro ddu deg ceiniog o'r swyddfa bost yn ei ddwylo. Yn fuan roedd y camera yn un mwy gyda sawl botwm technegol yn ychwanegiad iddo, a'i feiro blaen wedi troi yn un ddrud a fyddai'n gadael sglein o inc du perffaith yn perfeddu ar y papur, a hyn i gyd oherwydd Cari G.

"O Eifion, fy ngwash i. Ti wedi'i gwneud hi eto, yndo?" meddai Mr Harri Brown, Big Brown i bawb fel arall, yn uchel wrth iddo edrych lawr ar y lluniau yn ei law.

Dim ond nodio'n ddistaw a wnaeth Eifion a'i ddwylo llonydd yn bleth ar ei lin. Roedd y lluniau yn dweud llawer mwy na geiriau.

"Fusawn i ddim yn synnu os bydd codiad cyflog swmpus yn dy gyfrif erbyn ddiwedd y mis!" datgelodd Brown, ei fochau crwn yn gochach na'r arfer. Yna, cododd Brown ei fraich cwta yn chwim gan bwyntio tuag at y drws yn awdurdodol.

"Rŵan, cer o fy ngolwg i a paid â dod nôl nes fydd gen ti rywbeth mwy melys ar y slwt enwog 'ma!"

Cododd Eifion yn dawel gan afael yn ei fag ysgwydd lledr newydd a'i lechio amdano wrth iddo adael y swyddfa ar waliau gwydr. Methodd â helpu'r grechwen a groesodd ei wyneb am eiliad wrth iddo symud heibio i'r preswylwyr ciwbigol am y lifft.

'Wnaiff yr un ohonynt fyth ddysgu,' meddyliodd wrtho'i hun cyn i gloch ysgafn y lifft ei ddeffro o'i feddyliau. Camodd i mewn i'r bocs metel, llychlyd gan fynd dros ymateb y Bos yn ei feddwl. Nid oedd agwedd annifyr a barus Brown yn ei boeni mwyach. Buan iawn y daeth Eifion yn hen law ar ei blesio a'i berswadio a doedd cael gafael ar luniau hyll o Cari G ddim wedi bod yn broblem ers misoedd. Dim ond pedwar mis yr oedd wedi bod yn gweithio gyda'r cwmni, un o gwmniau newyddiaduraeth mwyaf llwyddiannus y ddinas, ac eto roedd Eifion o fewn tafliad carreg i'r brig. Roedd o wedi chwarae y system, wedi perswadio'r bobl gywir ond, yn well byth, wedi cael gafael ar y teclynnau cywir.

"Ond na, fuaswn i byth 'di cyrraedd fan hyn heb hel yr hen Cari," chwarddodd wrtho'i hun gan ddenu sawl edrychiad od gan gerddwyr ar y stryd brysur. "Sgwn i os ydi hi'n gwybod faint y mae hi wedi fy helpu?"

* * * * *

"Be' ar y ddaear? Un arall?! Fedrai wir ddim coelio hyn!" sgrechiodd Cari Elen Griffiths o'i sedd gyfforddus.

Eisteddai o flaen y drych crand wedi ei addurno a sawl pâr o olau bychain, ei gwallt wedi ei siapio o gwmpas roleri lliwgar, ei wyneb wedi hanner ei baentio. Yn ei llaw gorweddai un o gylchgronau diweddaraf y byd enwogion a roedd wedi ei agor ar y dudalen ganol ble roedd llun ohoni hi hun yn edrych i fyny arni, y lliwiau lachar yn gwneud i'w wyneb pert edrych yn goch a'r geiriau main du ar y dudalen yn siarad celwyddau noeth amdani.

"Pwy uffar 'di'r newyddiadurwr 'ma, Meic?" wylodd cyn iddi droi'r erthygl yn ddarn papur crychlyd yn ei llaw esmwyth.

"Dydi o ddim yn dweud," Cychwynnodd Meic, ei rheolwr. "Ond gwranda, dydi o ddim gwerth poeni. Mae gen ti noson bwysig o 'dy flaen yn does? Jest mwynha wnei di?"

Plygodd Meic yn chwim er mwyn rhoi cusan ar ei boch cyn iddo ddiflannu trwy ddrws ei hystafell westy. Taflodd Cari y belen bapur i'r ochr gan adael iddo lanio'n ddi-hid ar y carped esmwyth. Ymlaciodd y seren wrth i wynebau croesawgar ei thîm coluro ymddangos . Hoffai Cari deimlad y farnais oer yn llifo ar ei hewinedd ac arogl melys y powdr a ledaenwyd ar ei bochau.

"Mae Meic yn iawn wsti, cariad," cychwynnodd Erin wrth i'w dwylo medrus ddadwneud y roleri plastig o wallt hufen Cari.

"Dydi newyddiadurwr cas fel 'na ddim werth ei halen, ac yn enwedig ddim yn werth dy boendod 'di. Reit, 'na ni dy wallt. Mae Meleri yn barod efo dy ffrog 'di yn y llofft."

Gwenodd Cari ar y ddynes ganol-oed, blwmp wrth iddi symud drwodd i'r ystafell nesaf. *Ond yng nghefn ei meddwl* roedd y newyddiadurwr dirgel yn dal i gripian.

* * * * *

Ar ochr arall y ddinas eisteddai Eifion Dafis mewn cadair blastig ger ei gyfrifiadur modern. Swniodd synau clicio sydyn o oddi tan ei fysedd wrth iddo symud trwy'r cannoedd o luniau ar y peiriant. Dim ond un albwm teuluol oedd ganddo,a hwnnw dim ond yn cynnwys un llun sengl o fachgen ifanc, tenau fel postyn yn gwenu'n ddel ar y camera. Bachgen, dim mwy na saith neu wyth mlwydd oed yn tynnu llun ar ddydd ei ben-blwydd, ei wen eiddgar wedi ei bwyntio at lens y camera ond ei lygaid wedi eu denu'n farus, yn llwglyd hyd yn oed, at y camera tafladwy yn ei law. Cadwai Eifion y llun yma, y llun ohono ef yn blentyn, nid oherwydd yr atgofion melys ond er mwyn ei atgoffa o'i freuddwyd. Dim ond un nod oedd ganddo, cyrraedd y brig yn ei broffesiwn, a mi fyddair llun yn ei atgoffa ohono pan fyddai'n ymlwybro oddi ar ei drywydd ond, yn ddiweddar, doedd dim ei angen arno oherwydd roedd ei yrfa yn blaguro o flaen ei lygaid diolch i albwm llawn o luniau Cari Griffiths ac un rhaglen gyfrifiadurol effeithiol. Symudodd Eifion y lygoden tan i'r saeth fechan hongian dros symbol lliwgar y rhaglen.

'Na, dim ar y funud,' meddyliodd gan roi'r cyfrifiadur i gysgu. 'Mae angen mwy o luniau arnaf gyntaf.'

Ymlwybrodd i'r ystafell molchi er mwyn tasgu dŵr ar ei wyneb. Symudodd ei lygaid i'r drych er mwyn cael cip-olwg ar ei hun. Cip-olwg oedd yr oll yr oedd angen, dim ond er mwyn gwneud yn siŵr ei fod dal yno, heb golli ar ei hun eto. Ni fuodd erioed yn fachgen golygus diolch i'w lygaid pitw, ei sbectolau gyda'r fframiau du trwchus, a'i groen salw yr olwg. Yn wir, llipryn ydoedd ond roedd Eifion wedi gwneud hedd gyda'r ffaith ers droeon.

Ni fu y llipryn yn hir yn dewis ei ddillad ar gyfer y digwyddiad. Roedd wedi bod mewn sawl seremoni wobrwyo erbyn hyn a roedd yn gwybod fod siwt yn syniad gwirion gan fod trefn ei noson yn cynnwys sefyll o dan oleuadau poeth llachar a stwffio ei gorff trwy griwiau o newyddiaduron chwyslyd a phenderfynol. Am saith o'r gloch gadawodd ei fflat yn gwisgo trowsus du syth a chrys cotwm golau ac ysgafn. Chwifiodd ei law am dacsi, yn barod am noson gyffrous.

* * * * *

"A dyma ni, yn fyw o'r carped coch, Cari Griffiths, ein hoff seren!" gwaeddodd y gohebydd i mewn i'r meicroffon dros sŵn byddarol y gynulleidfa anferthol. "Beth sydd gen ti i ddweud am y storiau diweddar amdanat? A oes pedwerydd dyn ar y gorwel?"

Daliodd Cari ei hun cyn iddi larpio'r gohebydd gyda'i thafod. Roedd rhybuddion Meic yn rhedeg drwy ei meddwl, bron mor ofnadwy fel na gallodd ffocysu ar y digwyddiadau. Symudodd yn sydyn gan ddiflannu ymysg grŵp pop ifanc a oedd yn prysuro i gael tynnu eu lluniau gan y ffotograffwyr brwdfrydig. Ar gychwyn y noson roedd Cari'n teimlo'n anhygoel gyda'i ffrog sidan goch yn ffitio'i ffrâm fechan yn ffantastig a'i gwallt melyn yn dawnsio o gwmpas ei wyneb ac yn tasgu dros ei hysgwyddau. Y peth gorau iddi hi oedd fflachiadau y cannoedd o gamerâu a'r pen ar ôl pen a oedd yn troi i gael cip sydyn ar ei phrydferthwch. Ond wrth iddi siarad gyda gohebwyr, ffotograffwyr a chefnogwyr buan y daeth i sylweddoli na am y bwmp babi ffug yr oeddent yn chwilio amdano yn y lluniau ac na am y dynion yn ei gwely yr oeddent yn clebran. Cychwynnodd ei phen droi. Nid am y celwyddau gwirion yna yr oedd yn noson amdano. Nid dyna pam y roedd hi wedi dewis ei llwybr yrfa yn y byd ffilm. Gafaelodd un gohebydd yn ei garddwrn er mwyn dal ei sylw ond cipiodd Cari ei braich i ffwrdd gan daflu cip-olwg flin y tu ôl iddi wrthi iddi glywed yr un cwestiwn am y canfed tro; "Beth yw'r newyddion am y babi, Cari?"

Symudodd i ffwrdd gan afael yn ei bag llaw coch, melfed yn dynn wrth iddi gamu am yr adeilad.

"Fedrai ddim..." sibrydodd, ei gwefusau wedi eu dal yn swrth,

ei gen yn crynu.
Crebachodd wyneb y newyddiadurwr ifanc wrth iddo deimlo penelin arall yn glanio'n galed yn ei ochr. Rhegodd gan ddal ei afael ar y ffens dros-dro rhydlyd. Roedd cannoedd o sêr ac enwogion wedi dawnsio heibio i Eifion ers i'r noson gychwyn rhyw ddwy awr ynghynt - rhai'n chwerthin, rhai'n clegar ac eraill yn ddistaw ond pob un ohonynt yn mwynhau'r sylw. Ond, er hyn, doedd dim un llun wedi ei dynnu ar gamera digidol Eifion. Dim eto. Y peth pwysicaf ar y funud honno oedd cadw ei le ar flaen y grŵp o ffotograffwyr milain a dal ei dir. Pwy a ŵyr pa bryd y byddai Cari'n pasio heibio, y prydferthaf a'r mwyaf swnllyd o'r criw i gyd. Byddai'n rhaid i Eifion fod yn barod. Edrychodd lawr ar ei gamerâu technolegol gan fyseddu'r botymau yn gariadus. Yn sydyn, neidiodd pen Eifion i fyny wrth iddo glywed yr enw cyfarwydd; yr enw yr oedd yn ei fwyta, yfed a chysgu.
"Cari!"
"Cari G!"
"Llun cariad?"
"Draw fan 'ma!"
Ond anwybyddu yr holl sylw wnaeth y ddynes ifanc mewn coch gan ddiflannu'n sydyn i mewn i ddrysau troellog y theatr. Heb ail-feddwl, llithrodd Eifion drwy'r grŵp gan adael y ffotograffwyr ar ôl i frwydro dros ei le gwag fel cŵn gwyllt. Trotian o gwmpas yr adeilad ac i lawr am y drws cefn a wnaeth Eifion, gan adael y chwyldro byddarol y tu ôl iddo. Roedd yn gwybod yn iawn i ble yr oedd yn mynd a ni ildiodd pan ddaeth at y wal goncrid fechan a oedd yn amgylchynu'r drws cefn, yn hytrach gwnaeth yn siŵr fod cordyn ei gamera yn sicr o gwmpas ei wddf cyn neidio. Glaniodd ar yr ochr draw heb graith ar ei wisg a brysiodd at y drws metel a oedd y gil-agored er mwyn gadael chwa o wynt i mewn i'r adeilad. Agorodd Eifion y drws ychydig mwy cyn diflannu i mewn i'r tywyllwch.

Plygodd Cari dros y sinc gwyn, glân gan dasgu dŵr oer, croesawgar ar ei wyneb. Cymerodd anadl ddwfn cyn agor ei llygaid. Roedd y golau llachar yn taro ei hwyneb yn gas ac yn adlewyrchu'n hyll oddi ar y teils gwyn. Edrychai Cari fel ploryn fawr coch ymysg y gwyn pur ar bob arwyneb. Trodd ei stumog a gafaelodd yn ymyl y sinc wrth i'r ystafell gychwyn chwyrlio. Sylwodd fod y dŵr wedi sbwylio ei cholur ond roedd ei meddwl ymhell o ryw boendod mor pathetig. Sut oedd y cylchgronau wedi cael gafael ar y lluniau yma ohoni? Yn sicr roedd naw deg y cant ohonynt yn ffug a'r storiau hyd yn oed fwy gwirion, ond pwy oedd yn gyfrifol am sbwylio ei bywyd preifat? Plygodd fwy dros y sinc wrth i'w bol gorddi unwaith yn rhagor. Clywodd Cari sŵn y drws yn agor yn y cefndir a trodd i weld os na Meic oedd yno yn chwilio amdani. Er syndod iddi nid Meic oedd yno, ond camera du yn edrych arni drwy un lygaid ddirgel. Cafodd ei dallu am eiliad gan fflach o olau cyn iddi sylweddoli yn union beth oedd yn mynd ymlaen.
"Chdi!" gwaeddodd, gan geisio camu ymlaen.
Baglodd Eifion yn ôl ar ei ben ôl cyn iddo sythu'n sydyn a'i heglu hi lawr y coridor, sŵn ei draed yn cael ei fygu gan y carped drud. Wrth droi'r gornel sylwodd fod neb yn ei ddilyn a stopiodd. Pam? Roedd y llun, gwir y tro hwn, yn ei law a hwnnw'n werth ffortiwn. Gallai gael pris mwy amdano na gynigiai Brown o bell ffordd. Gallai gael rhedwyr y cylchgronau mwyaf poblogaidd i gyd wrth ei draed. Ond na. Nid oedd ei draed yn symud unrhyw agosach at yr allanfa, ond yn hytrach yn ôl am yr ystafell molchi. Sylwodd Eifion, wrth sefyll tu allan i'r drws, na'r sŵn wylo uchel oedd wedi achosi i'w draed stopio. Anadlodd yn ddwfn cyn camu i mewn.
* * * * *
Safodd ffrâm Cari Griffiths wrth y sinc o hyd; ei dwylo yn wyn wrth iddi afael ymhob ochr iddo, yn crynu fel deilen. Rasiodd meddwl Eifion. Nid oedd o erioed wedi cael merch yn llefain drosto o'r blaen, llefain am rywbeth yr oedd o wedi ei wneud. Roedd rhywbeth yn effro ac yn cyffroi y tu mewn iddo. Yn sydyn, heb yn wybod iddo ef, roedd ei law ar ei hysgwydd a hithau'n edrych arno'n syn, ei phrydferthwch dal yn hollol amlwg trwy ei thristwch ofnadwy.
"Be' ti'n da yma?" gofynnodd hi'n nerfus, ei gwefusau'n crynu.
"Sh, paid â chrio. Paid," meddai Eifion gan rwbio'i braich.
"Paid â meiddio fy nghyffwrdd i!" sgrechiodd Cari'n gandryll, ei thraed yn camu'n ôl yn sydyn, ei llygaid ar dan.
Dychrynodd Eifion wrth iddi dorri i lawr o'i flaen, yn crio, yn strancio, yn ei feio ef, ei rheolwr, cwyno am effeithiau'r storiau a'r lluniau ar ei bywyd.
"Pa hawl sy' gen ti?" gwaeddodd arno gan bwyntio ei bys i mewn i'w fron yn galed. "Oherwydd chdi, dwi heb gael dyn ers bron i hanner blwyddyn! Does neb isio fi!"
Camodd Eifion tuag ati a chyffwrdd yn ei braich yn dyner unwaith eto. Er nad oedd erioed wedi ei chwrdd o'r blaen roedd o'n teimlo fel ei fod wedi ei hadnabod drwy gydol ei oes. Roedd ei waith wedi ei hamgylchynu ers pedwar mis ond roedd ei freuddwydion a'i feddylfryd wedi ei hamgylchynu ers oes, blynyddoedd hyd yn oed.
"Dydi hynny ddim yn wir," Cychwynnodd, ei lais yn ddistaw ac yn dyner. "Ma na lwyth o ddynion dy eisio di. Chdi di'r peth hardda' dwi 'rioed wedi weld."
Trodd Cari ei phen i edrych arno drwy lygaid cynnes, bron yn dyner. Am eiliad roedd hi'n nesau ato, a'r eiliad nesaf roedd ei gwefusau coch wedi eu pwyso'n dynn ar ei rai tenau ef ac roedd cynhesrwydd yn lledaenu dros ei gorff.
* * * * *
Roedd hi'n fuan y bore wedyn pan ddeffrodd Eifion mewn gwely dieithr, ei ddillad wedi eu gwasgaru ar y llawr, ei gamera ar y bwrdd ochr gwely a merch siapus wedi ei chyrlio o gwmpas ei gorff tila. Erbyn un ar ddeg roedd yn eistedd o flaen ei gyfrifiadur yn ei fflat dywyll gyda'i gamera yn lawr lwytho'r llun arbennig i mewn i'r peiriant. Bu'n fawr ddim yn argraffu'r llun ar bapur arbennig a'i lithro i fewn i amlen fawr wen. Cyn cau'r cyfrifiadur bu'n siŵr o ddileu'r llun oddi arno ac oddi ar y camera.
Dododd yr amlen yn ei got cyn gadael ei gartref. Roedd dewis ganddo. Bu Brown yn llenwi ei ffôn drwy'r bore gyda negeseuon blin a rhybuddion cas. Roedd angen y llun arno, a hynny'n slic neu mi fyddai'n rhoi'r gwaith i weithiwr arall a mi fyddai Eifion yn colli'r prosiect, yn colli ei freuddwyd. Oedd o am wastio'r holl waith? Nag oedd, siŵr Dduw. Cychwynnodd ei gar ac ymunodd gyda'r traffig. Roedd rhywbeth yn ei siarsio'n ffyrnig yng nghefn ei feddwl. Ei gydwybod. Dyrnodd Eifion yr olwyn gyda'i fysedd wrth iddo gofio teimlad gwefusau Cari ar ei rai ef, ei chorff twym yn gwthio'n ei erbyn, ei geiriau melys yn ei annog yn eiddgar. Doedd Eifion erioed wedi blasu sut beth yr oedd cariad tuag at ddynes o'r blaen, neu'n well byth, cariad gyda dynes. Roedd yn werth chweil, a methai ac anghofio y boen ar wyneb Cari y noson gynt. Y boen, o'i herwydd o. Ond methai chwaith ac anghofio am ei freuddwyd, yr holl waith yr oedd wedi ei wneud, yr holl dwyllo a chwilio a golygu. Roedd ei ben yn dyrnu wrth i'w ffôn ganu gyda neges destun arall gan Brown. Beth yr oedd am ei wneud? Ble yr oedd am fynd? Fflat Harri Brown er mwyn gwneud ei ffortiwn, ynteu ystafell Cari Griffiths i wneud y peth iawn? Nodiodd ei ben cyn troi am ei leoliad dewisol. Parciodd ei gar ar stryd gyfagos cyn nesau at yr adeilad ar droed. Buan iawn yr oedd wedi cerdded y grisiau ac yn sefyll tu allan i'r drws cywir. Cnociodd ar y pren, yr amlen wen wedi ei dal yn nwrn chwyslyd ei law arall.



# CHWILOTA



**PRYD SWMPUS.**

Fel arfer yn y rhifyn hwn, rhyw bwdin 'dolig o golofn fydd hi, yn llawn o fân dameidiau amrywiol at ddant pawb, gobeithio. Ond y mis hwn, daeth gwybodaeth i law sy'n haeddu mwy o sylw, ac felly'n golygu erthygl mwy swmpus.

**Bwthyn y Gwaed.**

Derbyniais becyn o lyfrynnau, lluniau, tocynnau a thoriadau papur newydd gan Mrs Enid Jones, Talysarn, ac yn eu plith roedd adroddiad am ddechrau adeiladu tai cyngor Rhydfadog yn Neiniolen. Roeddwn yn ymwybodol o'r hanes, ond o bosibl nad yw'r darllenwyr presennol yn gybyddus â'r stori. A rhaid gofyn yn ddifrifol, wrth gwrs, p'run ai stori neu hanes ydyw.

Yn ôl traddodiad, ar dir Rhyd Fadog y bu un o'r brwydrau mwyaf gwaedlyd rhwng y Cymry a byddinoedd Edward I. Madog ap Llewelyn oedd arweinydd y Cymry yn y frwydr honno, ac ef a roes ei enw i'r rhyd ar draws yr afon.

Roedd Edward I dan warchae yng nghastell Conwy, a chymaint o lif yn yr afon fel na allai milwyr ychwanegol dan arweiniad Iarll Warwick groesi ato. Roedd yn gyfyng-gyngor ar y brenin, ond yn annisgwyl, llwyddodd Warwick i groesi'r afon a gwthio Madog a'r Cymry yn ôl i gysgod y mynyddoedd. Fe'u herlidiwyd ar draws gwastad Pentir tuag at Lys Dinorwig. Bu brwydr ger Maes Meddygon, ond gwrthsafodd y Cymry a gyrru lluoedd y brenin yn ôl. Daeth ail gyrch liw nos gan y brenin, a'r tro hwn, gosododd Warwick ddynion gyda bwau croesion ("cross-bows") rhwng pob marchog. Roedd yr arf hwn yn ddieithr i'r Cymry,a mawr fu eu colledion.

Bu'n rhaid i weddillion byddin Madog ffoi am y mynyddoedd; i fyny tua llethrau'r Elidir, ond fe'u herlidiwyd, a lladdwyd nifer helaeth ohonynt yn yr ardal sydd erbyn heddiw o amgylch Rhydfadog. Dywedir fod yr afon yn llifo'n goch gan waed y celannedd. Traddodiad hefyd sy'n adrodd mai yn ardal Dinorwig y claddwyd llawer ohonynt, mewn lle a elwid yn Feddau'r Chwilwyr.

Un peth sy'n sicr, darganfuwyd nifer helaeth o arian Edward I ar dir Rhydfadog.

Mae'r bwthyn – a elwid yn Fwthyn y Gwaed – bellach wedi hen ddiflannu, a'r hanes yn ddieithr iawn i lawer o drigolion y fro. Stori neu hanes?

**Pont Charlie.**

Mae hanner can mlynedd wedi mynd heibio ers i Reilffordd Padarn neu 'lein tren chwaral' a rhoi iddi ei henw llafar, ddirwyn i ben ac i'r rheiliau gael eu codi. Nid yw'n fawr o syndod felly fod llawer o bobl tra'n teithio o Fethel i Lanrug yn synnu gweld pont o lechi yn sefyll yn dalog yng nghanol y caeau: Pont Charlie. Ond beth oedd ei phwrpas? A pha bryd yr adeiladwyd hi?

Dywedir mai Charles Evans o fferm Y Wern, Llanddeiniolen fu'n gyfrifol am ei hadeiladu, ond doedd hi ddim yn bodoli o gychwyn y rheilffordd 'nôl yn 1848. Nid yw'r bont yn ymddangos ar fap O.S. 1889, ond mae yno erbyn map 1900. Dyna roi rhyw amcangyfrif o ddyddiad ei chodi felly. Ond y cwbl a wna'r bont yw cario llwybr cyhoeddus ar draws y rheilffordd.

Tybiais ar y cychwyn mai dyna'n union oedd ei phwrpas, gan mai prin iawn yw'r llwybrau cyhoeddus sy'n croesi'r rheilffordd yn unman ar ei thaith o'r Gilfach Ddu i Benscoins. Ond tybed?

**Melin Bedwargoed.**

Gan Mrs Enid Jones, Talysarn y daeth yr wybodaeth am y felin hon a fu'n cynhyrchu gwlân a llechi. Mae'r atgofion am y felin wedi eu cofnodi mewn hen 'copybook', ond yn anffodus, does dim dyddiad arno, felly pan sonnir am 'rwan' neu am 'gan mlynedd yn ôl', anodd iawn penderfynu ar yr union amser.

Roedd o leiaf saith o dai wedi eu hadeiladu ger melin Bedwargoed. Mae'r cyfan erbyn hyn yn adfeilion. Deuai'r llechi i'w trin i'r felin o'r Gilfach Ddu, a hynny mewn tryciau "ar hyd yr hen reilffordd, rhyw led cae yn nes i'r tai na'r rheilffordd bresennol." Dyna ddyfyniad diddorol iawn, sy'n awgrymu fod cwrs yr hen reilffordd fymryn yn wahanol na'r hyn ydoedd yn ddiweddarach.

Afon Fachwen, wedi ei chronni yn Llyn Penrallt, oedd yn gyrru'r felin. Mae'r llyn bellach wedi diflannu hefyd, a dim ond olion ohono'n aros ger y llwybr o'r Fachwen i goed Parc Padarn.

Ar gychod yn hytrach nac ar droed y byddai trigolion Llanberis yn cyrchu'r felin, a hynny, mae'n debyg ar ôl i'r felin lechi gael ei throi'n felin wlân, neu 'ffatri' fel y cai ei galw. Tai ffatri oedd yr enw ar y tai o amgylch y felin hefyd.

Roedd tair ystafell yn y ffatri: dwy ar y llawr yn cynnwys y peiriannau trin gwlân, a'r llofft, ble byddai'r edafedd yn cael ei sgwrio a'i liwio. Byddai wedyn yn cael ei daenu ar lan y llyn i sychu.

Mae'r llwybr sy'n arwain o gefn Ysbyty'r Chwarel draw am afon Fachwen yn llwybr cyhoeddus bellach, ond yn yr hen amser, byddai postyn mawr wedi ei osod ar ei ochr a rhybudd arno yn honni nad oedd neb i gerdded y llwybr ond trigolion y Caeau Cochion, sef yr hen enw ar ardal y Fachwen.

**Teulu Tyddyn Charles yn America.**

Yn rhifyn Hydref soniais am deulu Griffiths o Dyddyn Charles, Llanberis yn mudo i'r America. Cafwyd ymateb gan John Alan Roberts, Penygroes (Llanberis gynt). Dywed fod y teulu wedi aros yn Granville, Talaith Efrog Newydd a bod tystiolaeth am eu disgynyddion ar gerrig beddau mynwent Elmwodd, Middle Granville.

Un o'r meibion oedd John Griffith (1825-1906) Ganwyd iddo ef a'i wraig Margaret (1820-1880) o leiaf saith o blant, ac un ohonynt oedd Catherine (1854-1928), a briododd â Sanford Cook (1849-1926). Ar gofnod marwolaeth Catherine, a fu'n dioddef am ddeunaw mis o ganer y stumog, nodir mai yn Llanberis y cafodd ei geni. Roedd ganddi dri o blant, ac y mae eu disgynyddion bellach ym mhedwar ban yr America, gan gynnwys Los Angeles.

Brawd arall oedd Richard Griffith, a oedd erbyn 1900 wedi symud i dalaith Colorado, ac yn byw gyda theulu o Gymry yn Delta. Roedd geneth fach yn y teulu o'r enw Blodwen.

Llawer o ddiolch am hanes y mudwyr o Lanberis.

**Melin Crawia, Llanrug.**

Gan Fred Williams, Bethel y daeth yr hanes am felin flawd Crawia; melin a fu yn eiddo i aelodau o'i deulu nes iddi gau'n swyddogol yn ystod y 1930'au dim ond i'w hail-agor wedyn am gyfnod byr yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Bob Williams, Lôn Las, Crawia oedd yn rhedeg y felin; cefnder i daid Fred. Arferai Fred, pan yn blentyn ifanc, gael ei dywys i'r felin gan ei ewythr Daniel. Yno, byddai'r ddau oedolyn yn chwarae gêm o 'board rings', a Fred yn cael ei anfon o dan y peiriannau pan fethai'r cylchoedd â chyrraedd eu targed! Ac yr oedd y strapiau a phwlis y felin yn troi uwchben y bychan tra cropiai yntau oddi tanynt. Does wybod beth fyddai swyddogion iechyd a

## CHWILOTA
*Parhad*

diogelwch wedi ei wneud o'r fath beth.

Pan fyddai ffarmwr lleol angen malu ei rawn yn flawd byddai'n cyrchu'r cynnyrch i'r felin mewn trol. Yna, cai'r sachau eu cario i mewn, a'u gwagio ar lawr yr odyn, rai modfeddi o drwch. Byddai tân yn cael ei gynnau'n y ffwrnais o dan yr odyn er mwyn sychu'r grawn. Roedd proses o'r fath yn cymryd cryn amser, gan fod angen troi y grawn yn rheolaidd rhag iddo losgi. Gwaith poeth a chwyslyd oedd hwn, a gwisgai'r melinydd glocsiau i arbed ei draed rhag y gwres. Roedd hefyd yn defnyddio shefl bren i droi'r grawn. Unwaith y byddai'r gwaith hwn wedi ei gychwyn, doedd fiw i'r melinydd adael, gan fod angen gofal cyson, troi'r grawn yn rheolaidd a sicrhau ei fod yn sychu'n grimp.

Wedi'r sychu, cai'r grawn ei lwytho'n ôl i'r sachau a'i godi i hopar uwchben y maen melin (neu'r garreg falu fel y gelwid hi hefyd). Pwer dwr yn troi olwyn ar ochr y felin oedd yn codi'r sachau grawn i fyny i'r hopar ac yn troi'r cerrig malu. Wedi cychwyn y maen i droi, gollyngid y grawn sych dan reolaeth y melinydd a'i falu'n flawd rhwng y meini melin. Yna, yn ôl eto i'r sachau i ddisgwyl i'w berchennog ei nôl gyda'i drol.

Roedd gan y melinydd oruchwylion eraill hefyd, sef cynnal a chadw'r adeiladau, iro ac atgyweirio'r strapiau a glanhau'r offer yn gyson. Yn ôl Fred Williams, y gwaith peryclaf fyddai sicrhau'r olwyn ddwr ar gyfnodau o orlif yn yr afon. Pan ddigwyddai hynny, byddai'r dwr yn gorlifo o'r afon i ffos y felin, ac yn llifo dros y ddôr oedd yn atal y llif. Yna, byddai'r olwyn yn 'troi'n wâg', ac yn cyflymu. Rhaid oedd atal hyn rhag digwydd neu gallai'r olwyn ddifetha. Rhaid oedd i'r melinydd geisio gosod darn praff o goedyn yn echelydd yr olwyn i weithio fel brêc. Yn union fel rhoi ffon mewn olwyn beic pan oedd honno'n troi! Weithiau, byddai'n rhaid gwneud y gwaith hwn yn nhrymder nos os codai dwr yr afon yn sydyn – a dim ond lamp baraffin oedd gan y melinydd druan i weld beth oedd angen ei wneud.

Tua canol y 1930'au daeth lês y felin i ben, a chaewyd drws y felin am y tro olaf, neu o leiaf, felly y tybiwyd. Ond yn ystod yr Ail Ryfel Byd, cafodd ei hail-agor i brosesu grawn oedd wedi ei lygru gan ddwr hallt ar longau wedi eu taro â thorpido yn ystod Brwydr Môr yr Iwerydd. Bu'n rhaid i Bob Williams ail-afael yn ei alwedigaeth fel melinydd a thrin y grawn llygredig.

Cai'r grawn ei gario i'r Crawia o Lerpwl a'i ddymchwel yn iard y felin. Cario'r grawn mewn berfa i'r odyn a dechrau ar y broses o'i sychu. Am fod y grawn wedi ei halltu gan ddwr y môr ac yna ei wlychu eilwaith gan law Eryri tra'n sefyll ar iard y felin, roedd cryn waith sychu arno! Ac yr oedd angen i'r melinydd fod yn bresennol yn gyson yn ystod y broses hon. Golygai hyn fod Bob Williams weithiau yn treulio tridiau yn y felin yn sychu grawn. Cysgu ar hen sachau, a gosod ei gloc larwm i ganu bob yr awr gan fod angen troi'r grawn. Roedd nel, ei wraig, yn cario bwyd o'r Lôn Las i'r felin yn ystod y cyfnodau hyn.

Tra'n sychu, byddai arogl drwg iawn yn codi o'r felin, ddydd ar ôl dydd, a thrigolion Crawia yn cwyno'n arw! Ond roedd Bob Williams yn gorfod byw gyda'r arogl yn gyson. Ac am na fyddai weithiau yn gadael y felin am dridiau, byddai tyfiant trwchus o farf ar ei wyneb, a llwch y grawn yn glynu wrtho. Byddai golwg ddychrynllyd arno'n cyrraedd Lôn Las ambell dro. Ond felly y bu hi am amser maith gydol y rhyfel, a'r grawn llygredig yn cael ei sychu a'i falu i wneud bwyd i anifeiliaid. A dyna gyfraniad melin flawd Crawia i'r 'war effort'.

Llawer o ddiolch am ddisgrifiad byw a chofiadwy o waith y melinydd; gwaith sydd bron iawn wedi marw o'r tir, ac yn sicr wedi darfod yn ein hardal ni ers llawer o flynyddoedd.

### Cau pen y mwdwl.

Mae amryw o ymatebion eraill wedi cyrraedd fel roedd y golofn yn cael ei hanfod i'r wasg. Daeth gwybodaeth am Henry Morris-Jones, am sinema Ty Clwb, Clwt y Bont ac am longau'r chwarelwyr. Rhaid disgwyl tan y rhifyn nesaf am y rheini.

Gyda diolch i'r holl ffyddloniaid sydd wedi bod yn ymateb i wahanol eitemau'n y golofn dros y flwyddyn ddiwethaf. Daliwch ati yn y flwyddyn newydd, ond cyn hynny, dymuniadau gorau i bawb am wyliau dedwydd.

Anfonwch unrhyw wybodaeth neu ymholiad i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: 01286 673515.



**Tim Peldroed Brynrefail – y pentref nid yr ysgol!**

Mae'r llun yn dyddio o ddechrau'r 1950'au, a Rol Williams, Waunfawr yw'r chwaraewr yn y cefn ar y chwith. Y Parch Glyn Meirion Williams, gweinidog Brynrefail ar y pryd yw'r gwr mewn côt laes yn y canol. Nid yw'r crysau i gyd o'r un lliw chwaith, ond efallai fod eglurhad am hynny. Pwy yw gweddill y chwaraewyr, a beth fu hynt a helynt y tim?



**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

**Swyddfa Etholaeth**
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

# Llyfr Jôcs Newydd i Ddisodli Cracyrs y Nadolig Yma

Rhan o draddodiad y Nadolig erbyn hyn wrth y bwrdd cinio yw tynnu'r cracyrs, rhyfeddu at yr anrhegion a darllen y jôcs sydd y tu fewn. Wel, ni fydd rhaid aros tan y twrci i rannu jôc neu ddwy y Nadolig hwn oherwydd mae llyfr newydd gan y Lolfa yn llawn o'r jôcs Cymraeg mwya gwreiddiol erioed.

Dywedodd Dewi Pws, sydd wedi cyfrannu nifer o jôcs a cherddi doniol i Lyfr Jôcs y LOLfa, 'Pan o'n i'n naw oed, ro'n i'n dwli mynd i'r ysgol. Nid achos bo fi isie dysgu unrhyw beth, ond achos bo fi isie rhannu'r jôcs diweddara gyda fy ffrindie. Gobeithio neith rhai o'r jôcs a'r cerddi yma eich helpu chi i weld ochor ddoniol bywyd. Ond peidiwch â gwenu gormod – bydd pobol yn meddwl eich bo chi'n neud rhywbeth amheus!'

Ychwanegodd Meinir Wyn Edwards, golygydd y llyfr: 'Mae'r deunydd wedi ei gasglu o wahanol ffynonellau. Cynhaliwyd cystadleuaeth yng nghylchgrawn Cip a chasglwyd rhyw 150 o jôcs ar stondin y Lolfa ar faes Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol eleni er nad oedd pob un yn weddus i'w cynnwys yn y llyfr!'

Yn ogystal â jôcs mae yna nifer o gartwnau gan Huw Aaron. Bydd y gyfrol yn sicr o daro deuddeg gyda phlant o un i gant oed y Nadolig hwn, gan olygu y bydd gwerthiant cracyrs ar i lawr yng Nghymru o leiaf! Pris Llyfr Jôcs y LOLfa sydd yn y siopau nawr yw £4.95.


Dyma ambell jôc o'r llyfr ...

Beth wyt ti'n galw Jac Codi Baw cyfeillgar? Jac Codi Llaw! – Enlli Tudur, Corwen.

Beth yw enw'r pry cop cyflymaf erioed? Corryn Jackson! – Llinos Evans, Ysgol Syr Thomas Jones.

Beth wnaeth y pry copyn ar y cyfrifiadur? Gwefan! Beth yw hoff fwyd brân? Bran ffles! - Aneurin, Ysgol y Wern.

Ble mae Barbie yn mynd ar ei gwyliau? Dol-gellau! Beth ti'n galw plismon o Lanberis? Copa'r Wyddfa! – Glesni Rhys Jones, Ysgol Gynradd Bodedern.



**Alun Ffred Jones**
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

**Swyddfa Etholaeth**
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

# Cwis Chwaraeon Yr Eco

1. Yn erbyn pa wlad yr enillodd Shane Williams ei gap llawn cyntaf i Gymru?
2. Pa dîm yng nghynghrair Lloegr mae cyn reolwr Bangor, Nigel Adkins, yn reoli?
3. Pa ddwy wlad wynebodd ei gilydd yn rownd derfynol y Davis Cup eleni?
4. Ar pa gwrs golff y chwaraeir yr Open yn 2012?
5. Ym mha dref yn Seland Newydd yr aeth Mike Tindall i drafferthion yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd 2011? (Nid POB UN yw'r ateb!)
6. Ar pa gwrs rasio ceffylau yn draddodiadol y cynhelir ras Grand National Cymru?
7. Beth oedd yn arbennig am 'hat-tric' Ioan Gwynedd i dîm pêl-droed Waunfawr yn ddiweddar?
8. I pa dîm pêl-droed mae Owain Tudur Jones yn chwarae iddo?
9. Pa Almaenwr fu'n rheolwr ar dîm pêl-droed cenedlaethol yr Alban?
10. Ym mha ran o Efrog Newydd mae stadiwm tennis Flushing Meadows?
11. Mae Gabby Logan yn ferch i .....?
12. Llysenw pa dîm pel-droed yn y gogledd yw'r 'Roosters'?
13. Pa glwb enillodd uwch adran Cynghrair Criced Gogledd Cymru yn 2011?
14. Pwy yw'r unig reolwr presennol yn Uwch Gynghrair Pêl-droed Cymru i ennill cap llawn i Gymru?
15. Beth oedd yn arbennig am goliau Niki-Lee Bulmer a Jamie Tolley i Wrecsam ar Ragfyr 3ydd?
16. Pa dalaith rygbi sy'n chwarae eu gemau cartref ar faes yr RDS?
17. Pwy sgoriodd gais olaf Cymru yng Nghwpan y Byd 2011?
18. Pa gricedwr gipiodd 3 wiced mewn pelawd yn ei gêm gyntaf i Awstralia?
19. Mae'r chwiorydd, Lucy a Kate McGregor, eisioes wedi eu dewis i dîm Olympaidd Prydain. Ym mha gamp?
20. Mae gan y gôl-geidwad Mark Schwarzer 94 cap llawn pêl-droed i pa wlad?

ATEBION CWIS CHWARAEON (*I'w gweld ar dudalen.....*)

1. Ffrainc; 2. Southampton; 3. Sbaen/Yr Ariannin; 4. Royal Lytham; 5.Queenstown; 6. Casgwent (Chepstow); 7. Ciciau o'r smotyn i gyd; 8. Inverness CaledonianThistle; 9. Bertie Vogts; 10. Queens; 11. Terry Yorath; 12. Llanrwst; 13.Cei Cona; 14. Andy Legg; 15. Un yng Nghwpan Cymru ac un yng Nghwpan Lloegr; 16. Leinster; 17. Lee Halfpenny; 18. James Pattinson; 19. Hwylio; 20.Awstralia.

## TEYRNGEDAU

Syfrdanwyd yr ardal ym marwolaeth Gwilym Williams, Bryn, Cwm-y-Glo. Roedd Gwil wedi cynrychioli timau pêl-droed Deiniolen, Llanrug a Llanberis. Diolchaf i'r tri isod am eu teyrngedau i Gwil.

"Yr oedd Gwil yn un o'r cymeriadau mwyaf i wisgo crys Deiniolen. Rhoi cant y cant oedd ffordd Gwil ym mhob gêm. Cofiaf un gêm yn y Junior Cup yn 1994 i ffwrdd yng Ngwalchmai. Cafodd Gwil anaf drwg i'w goes ond mynnodd aros ar y cae. Aeth y gêm i amser ychwanegol ac enillodd Deiniolen o 9-8 wedi ciciau o'r smotyn. Fe arbedodd Gwil 'un goes' ddwy o giciau Gwalchmai. Aeth Deiniolen ymlaen i ennill y Cwpan. Cawr o ddyn. Cydymdeimlwn â Magi a'r teulu yn eu colled.
Elfed Williams (Clwb Pêl-droed Deiniolen)

* * *

Gyda thristwch y clywsom fel clwb am farwolaeth y Cawr o'r Cwm. Roedd Gwil Goli wedi cynrychioli'r clwb am sawl tymor, ac yn sylfaen cadarn i rai o dimau mwyaf llwyddiannus y clwb. Dyma un o'r chwaraewyr gorau i wisgo crys Llanrug.
Nid fel gôl-geidwad yn unig. Fel blaenwr medrus roedd yn fygythiad i unrhyw amddiffyn. Yn gryf a dewr sgoriodd sawl gôl, yn enwedig gyda'i ben. Rhoddwyd 'gwasanaeth' clodwiw i'r clwb gan y chwaraewr hynod o boblogaidd yma.
Cydymdeimlwn fel clwb â Magi, Carys, Terry a Keith a'u teuluoedd yn eu colled enfawr.
Dafydd Arfon Jones ( Clwb Pêl-droed Llanrug)

* * *

"Pan ofynnodd Lal Jones i mi symud i fyny o fod yn rheolwr tîm ieuenctid Llanberis i'r tîm hŷn, mi ddywedais iawn, ar un amod. Roedd mwyafrif y tîm hŷn i ddod o'r garfan ieuenctid lwyddiannus a thri hen ben. John Sgwaryn yn gôl, Cwil Bach ar yr asgell, a Gwil Goli fel blaenwr. Roedd Gwil Goli yn dynnwr coes a chymeriad yn y stafell newid - union beth yr oeddwn eisiau. Tymor cyntaf, ail yng Nghynghrair Arfon. Ail dymor ennill y Tucker Shield, y gystadleuaeth rhwng pencampwyr cynghreiriau llai y gogledd. Yn y llinell flaen y ddau frawd Gwil (59 gôl) a Dic (58 gôl). Ni flinai Gwil sôn am y tymor hwnnw. Arhosodd gyda Llanberis am sawl tymor, wedi symud i'r gôl. Chwaraewr poblogaidd, gyda chalon fawr a ffefryn gyda thorf Padarn Road. Dod â gwên i'r wyneb o hyd wna meddwl a chofio am Gwil. Fel clwb, cydymdeimlwn â Magi a'r teulu yn eu colled enfawr."
Jiws (Clwb pêl-droed Llanberis)

## Er cof am Gwilym Williams, Bryn, Cwm-y-Glo
## (Gwil Gôli)



Lloer oer uwch Dyffryn Peris,
y mae braw yn drwm ei bris.
Gwil annwyl, Fro Lleu'n wylo,
mae y gwlith hyd Gwm-y-Glo.
Oerni dy golli arnom,
ôl dy droed ar aelwyd drom.

Gwil yw'r gŵr fu'n gwylio'r gôl
yn gawr a'i herio geiriol.
Yrrwr cic i lawr y cae,
a'i lais yn mynnu'r tlysau
i Llanbabs, Llanrug, Llanber -
i'r hogia' tanio'r ager.
Mor deyrngar i fois Harri,
mor groch,"SPURS"; fo'n morio'i gri.

'Run safon, Gwil Arfonia
gwir y dweud, y gyrrwr da.
Wrth law, cwmniwr llawen
yn ei gab o hyd caed gwên.

Yn ei dŷ brenin o dad
di-guro lêd ei gariad.
Tŷ gwag? Sawl atgof, Magi,
ŵr dewr sych dy ddagrau di.
Fe ddaw ar eiliad dawel
eco'r bois yn cicio'r bêl;
a daw bloedd y tad a'i blant,
ei warchod drostynt barchant.
Ar awr oer yr her i'r iau
heddiw yw bod yn 'sgwyddau.

I'ch dal, clymwch eich dwylo – yn gwlwm,
rhowch galon i'r cofio.
Yn annwyl wedi'r wylo,
daw o hyd ei ysbryd o.

Richard Llwyd Jones
Dydd ei angladd: Tachwedd 26, 2011.

## Troi'n Feddal

Ydy pêl-droed yn troi'n gêm feddal? Ydy, yn ôl nifer o sylwebyddion, a hynny yn ei barn nhw am fod y dacl galed yn esgymun erbyn hyn. Yn y 60'au, ar bob lefel, roedd gan pob tîm ei 'chwaraewr calad'. Dyma'r un i ennill y bêl. Dyma'r un i 'dalu'n ôl'. Datblygodd sawl un yn 'gymeriadau' fel Orig. Gwnaeth nifer o'r rhai proffesiynol elw trwy rannu profiadau mewn ciniawa chwaraeon, neu raglenni teledu.
Mae'r cardiau coch 'syth' diweddar yn awgrymu fod y dacl yn prysur ddiflannu. Ydy'r gêm yn rhy gyflym i'r dyfarnwyr? Oes gormod o gamerâu? Ar y lefel uchaf, a safon y meysydd fel bwrdd biliards, ydy'r gêm yn ymdebygu i gêm 5-bob-ochor. Rhaid cyfaddef fod y math o gêm a welais ar gae 'plastig' y Seintiau Newydd yn ddiweddar yn cynnwys llawer llai o daclo. Ni welaf y torfeydd yn cael eu bodloni â chwarae tip-tap. Mae'r 'cythral' yn rhan annatod o'r gêm. Roedd y mwyafrif ohonom yn gwybod y gwahaniaeth rhwng chwaraewr 'caled' a chwaraewr 'budur'.
Cofiaf un o chwaraewyr Pentraeth yn llorio un o Gwalchmai. A minnau yn estyn am y 'melyn'. Dyma fo'n dweud, 'Reff, roedd y bêl ganddo pan wnes ei gicio fo.' A phawb, chwaraewyr a thorf yn chwerthin, nid oedd gennyf galon i'w fwcio! Dyddiau fu.

## Cyfarchion Yr Ŵyl

Ar ran 'Adran Chwaraeon' yr Eco ga' i ddymuno cyfarchion yr Ŵyl i'n darllenwyr ffyddlon. Diolch am eich cefnogaeth ac ymrwymiad mewn sawl ffordd i gynnal byd y campau yn y fro. Â'r Eco ar ei newydd wedd, beth am addunedu ar ran eich clybiau ac unigolion i rannu eich hanesion a llwyddiannau gyda'n darllenwyr gan ddanfon straeon ataf. Ymlaen i 2012!


*Nadolig Llawen a*

**Cefnogwch ein hysbysebwyr**


## Rhedeg Traws-Gwlad.

Llongyfarchiadau i Maggie Oliver o Ddinorwig ar ennill medal efydd ym Mhencampwriaethau Rasys Traws-gwlad Rhedwyr Hyn Prydain yn Glasgow ddiwedd mis Tachwedd. Roedd Maggie yn cynrychioli rhanbarth gogledd Cymru a ddaeth yn drydydd tim yn yr adran i ferched dros 60 oed.

# Chwaraeon

## The Great South Run Portsmouth



Fe glywsoch am y brawd hŷn y flwyddyn ddiwethaf. Ond mae'r brawd iau yn well - wel medda fo 'de!

Yr ydym yn cyflwyno i chi Gethin Thomas sydd yn aelod o flwyddyn 7 yn Ysgol Brynrefail.

Bu Gethin yn rhedeg yn y Great South Run a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Portsmouth. Ond, ac mae hwn yn ond mawr, fe ddaeth yn 14 allan o 369 oedd yn cystadlu yn ei oedran. Camp yn wir. Ond os nad yw hynny'n ddigon y mae hefyd wedi cystadlu yn y 'Great North Run', Ras y Wyddfa, Ras Faenol a Ras Lôn Llanberis.

A be am weddill y teulu? Wel mae 'na frawd bach iau i ddod ac mae Dad hefyd yn rhedeg rhyw ychydig meddai Gethin !

# Llwyddiant Cenedlaethol Byd Chwaraeon

Daeth anrhydedd i ran merch ifanc o'r ardal yn ddiweddar wedi iddi gael ei dewis i gynrychioli Cymru ym myd chwaraeon. Dewiswyd Elain Sian Roberts o Bwlchgrwnog, i gynrychioli Cymru drwy chwarae pêl-rwyd yn y garfan o dan 17 oed yn ddiweddar. Teithiodd Elain, sy'n ddisgybl ym mlwyddyn 12 yn Ysgol Brynrefail, i Sheffield ddiwedd Tachwedd i chwarae ei gêm gyntaf dros ei gwlad. Ar ben hynny, cafodd yr anrhydedd o'i gwenud yn gapten y tim! Llongyfarchiadau mawr iddi a phob llwyddiant wrth iddi barhau i gynrychioli Cymru ac arwain y tîm.



## Tîm Pel – Rwyd Llanrug

Mae pêl rwyd yn boblogaidd iawn ar draws siroedd y gogledd ac yn enwedig felly ymysg merched yr ardal hon. Mae dau dîm o Lanrug sy'n hynod llwyddiannus, yn rhan o Gyngrair Gaeaf Pêl Rwyd Penygroes a'r Cyffuniau ac yn profi yn anodd i'w curo!

Cychwynodd tîm pêl-rwyd Llanrug yng nghyngrair Penygroes oddeutu dwy flynedd yn ol. Genethod blwyddyn unarddeg a'r chweched dosbarth Ysgol Brynrefail oedd y tîm gwreiddiol, ac ymunodd y tîm yng nghyngrair y gaeaf. Aeth y tim o nerth i nerth, ac aethant ymlaen i chwarae yng nghyngrair yr haf. Erbyn heddiw, maent wedi tyfu i ddau dîm o Llanrug ac meant yn cael llwyddiant arbennig yn y gyngrair. Mae'r genethod ieuengaf yn chwarae yn yr ail is-adran ac yn gwneud yn dda yng nghanol y gyngrair ac yn mynd o nerth i nerth. Gobeithio byddant ymysg y tri tîm uchaf erbyn diwedd y tymor ym mis Chwefror.

Mae tîm y genethod hyn – Llanrug A- wedi llwyddo i godi i'r is-adran gyntaf yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar ôl dod yn bencampwyr eu hadran y tymor diwethaf.

Pob wythnos maent yn wynebu timau cryf o Gaernarfon, Penygroes, Caergbi, Bethesda a Phorthaethwy ac ar hyn o bryd meant yn y trydydd safle. Gallwch ddilyn eu hynt a'u helynt yma yn yr Eco bob mis.



## Cwpan Ewrop yn anrheg Nadolig?

Sgersli bilif! Dyma Jack Salisbury Burman o Lanrug yn dal gafael yn y cwpan anferth yn Anfield. Roedd Jack yno ar gwrs tridiau o hyfforddiant yn Academi Beldroed Lerpwl, a dychwelodd i Lanrug gyda dwy fedal. Enillodd ei dîm y twrnamaint ar ddiwedd y sesiwn ymarfer, a Jack fu'n fuddugol yn y gystadleuaeth ciciau o'r smotyn.

A'r ddiwedd y tridiau cafodd Jack a'r gweddill o'r bechgyn gyfle i wylio gem rhwng ail dimau Lerpwl a Chelsea. Yno'n gwylio hefyd, ac yn cadw cwmni i Jack, roedd ei hoff chwaraewr, Steven Gerrard.